# Cymorth i Gyflenwyr

# (Sector Cyhoeddus y DU)

**Fersiwn 12.3**

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

# Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)


CYMORTH I GYFLENWYR ........ 1

(SECTOR CYHOEDDUS Y DU) ........ 1

CYMORTH I GYFLENWYR (SECTOR CYHOEDDUS Y DU) ........ 8

MODIWL Y DANGOSFWRDD ........ 9

DANGOSFWRDD ........ 10

DIFFINIAD ........ 10
PORTHIGAU Y DANGOSFWRDD ........ 10
GWEITHGAREDDAU ........ 11
Ffurfweddu Cynllun y Dangosfwrdd ........ 11

MODIWL PROSIECTAU ........ 12

PROSIECTAU ........ 13

DIFFINIAD ........ 13
GOSODIADAU'R PROSIECT ........ 13
GWRTHRYCHAU FY MHROSIECT ........ 13
CYFLEOEDD RFX CYSYLLTIEDIG ........ 14
ATODIADAU PROSIECT ........ 14
GWEITHGAREDDAU PROSIECT ........ 14
GWEITHGAREDDAU ........ 14
Gweld Prosiectau ........ 14
Gweld Cyfle a Gyhoeddwyd ........ 15

PQQS/ITTS ........ 16

DIFFINIAD ........ 16
GWEITHGAREDDAU ........ 17
Gweld PQQ/ITT sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr ........ 17
Mynegi Diddordeb mewn PQQ/ITT sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr ........ 17
Gweld Manylion PQQ/ITT ........ 17

ADOLYGU MANYLION PQQ/ITT ........ 19

DIFFINIAD ........ 19
GOSODIADAU PQQ/ITT ........ 19
Deall Gosodiadau PQQ/ITT ........ 19


(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

Gweld Crynodeb o'r PQQ/ITT ..... 21
ATODIADAU PRYNWR ..... 21
CYFLWYNO YMATEB ..... 22
DIFFINIAD ..... 22
FY YMATEB ..... 22
Penderfynu Ymateb ..... 22
Cwblhau Ffurflenni Ymateb PQQ/ITT ..... 23
Allforio a Mewnforio Ymateb i Excel ..... 23
Atodi Ffeiliau i Ymateb ..... 24
Cyflwyno Ymateb ..... 24
Addasu Ymateb a Gyflwynwyd Eisoes ..... 24
ADRODDIAD DADFRIFFIO'R YMATEB ..... 25
AR AGOR BOB AMSER ..... 26
DIFFINIAD ..... 26
NEGESEUON ..... 26
HAWLIAU DEFNYDDIWR ..... 26
ARWERTHIANNAU ..... 27
DIFFINIAD ..... 27
GWEITHGAREDDAU ..... 28
Gweld Manylion yr Arwerthiant ..... 28
Cynnig mewn Arwerthiant ..... 28
ADOLYGU MANYLION YR ARWERTHIANT ..... 29
DIFFINIAD ..... 29
GOSODIADAU ..... 29
Cadarnhau Arwerthiant ..... 30
Gweld Crynodeb o'r Arwerthiant ..... 30
ATODIADAU PRYNWR ..... 30
RHESTR EITEMAU ..... 31
RHESTR LOTIAU ..... 31
RHESTR PARAMEDRAU ..... 31
ARIAN CYFRED ..... 31
MONITOR YR ARWERTHIANT ..... 33

DIFFINIAD ........ 33
ARWERTHIANNAU ........ 33
Gweld Arwerthiannau ........ 34
CYNIGION ........ 34
Cyflwyno Cynigion ........ 35
NEGESEUON ........ 35
ARWERTHIANT AR AGOR BOB AMSER ........ 36
DIFFINIAD ........ 36
NEGESEUON ........ 36
HAWLIAU DEFNYDDIWR ........ 37
CONTRACTAU ........ 38
DIFFINIAD ........ 38
GWEITHGAREDDAU ........ 39
Gweld Contract ........ 39
ADOLYGU MANYLION CONTRACT ........ 41
DIFFINIAD ........ 41
GOSODIADAU ........ 42
Gweld Crynodeb o'r Contract ........ 42
IS-GONTRACTWYR ........ 42
ATODIADAU ........ 42
GWYBODAETH YCHWANEGOL ........ 43
PRISIAU ........ 43
Gweld Prisiau Contractau ........ 44
MEISTRDDOGFEN ........ 44
Gweld Meistrddogfen ........ 44
CONTRACT AR AGOR BOB AMSER ........ 45
DIFFINIAD ........ 45
NEGESEUON ........ 45
HAWLIAU DEFNYDDIWR ........ 45
MODIWL CYFLEOEDD A GYHOEDDWYD ........ 46
CYFLEOEDD A GYHOEDDWYD ........ 47
DIFFINIAD ........ 47

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)


MANYLION Y PROSIECT ........ 47
MANYLION Y CYFLE ........ 48
MANYLION Y PRYNWR ........ 48
LOTIAU A GYHOEDDWYD ........ 48
ATODIADAU'R CYFLE ........ 48
GWEITHGAREDDAU ........ 48
Gweld Cyfleoedd a Gyhoeddwyd ........ 48
Chwilio am Gyfleoedd ........ 49
MODIWL PROFFIL DEFNYDDWYR A SEFYDLIAD ........ 49
PROFFIL ........ 50
DIFFINIAD ........ 50
GWEITHGAREDDAU ........ 50
Rheoli Data Proffil ........ 50
DATA COFRESTRU ........ 52
DIFFINIAD ........ 52
MANYLION Y SEFYDLIAD ........ 52
MANYLION DEFNYDDIWR ........ 52
Newid Cyfrinair ........ 52
PROFFILIAU SYLFAENOL AC ESTYNEDIG ........ 54
DIFFINIAD ........ 54
PROFFIL SYLFAENOL ........ 54
PROFFIL ESTYNEDIG ........ 54
Rheoli Ymatebion Proffil Estynedig ........ 54
CWESTIYNAU ........ 55
DIFFINIAD ........ 55
Chwilio am Gwestiynau ........ 55
Gweld Ymatebion i Gwestiynau ........ 56
RHEOLI DEFNYDDWYR ........ 57
DIFFINIAD ........ 57
GWEITHGAREDDAU ........ 57
Creu Defnyddiwr ........ 57
Creu Rôl ........ 58

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)


Creu Is-adran ........ 58

**DEFNYDDWYR** ........ **59**

DIFFINIAD ........ 59

MANYLION DEFNYDDIWR ........ 59

Rheoli Manylion Defnyddiwr ........ 59

HAWLIAU DEFNYDDIWR ........ 60

Rheoli Hawliau Defnyddiwr ........ 60

**ROLAU** ........ **61**

DIFFINIAD ........ 61

HAWLIAU DEFNYDDIWR ........ 61

Rheoli Hawliau Defnyddiwr y Rôl ........ 61

DILYSU ........ 62

**IS-ADRANNAU** ........ **63**

DIFFINIAD ........ 63

MANYLION YR IS-ADRAN ........ 63

DEFNYDDWYR YR IS-ADRAN ........ 64

GWELEDEDD YR IS-ADRAN ........ 64

ADRANNAU ........ 64

DILYSU ........ 64

**CATEGORÏAU** ........ **65**

DIFFINIAD ........ 65

COEDEN CATEGORÏAU ........ 65

CATEGORÏAU PRESENNOL ........ 65

GWEITHGAREDDAU ........ 65

Dewis Categorïau Cyflenwi ........ 65

Rheoli Categorïau Cyflenwi ........ 66

Cwblhau Ffurflenni Categori ........ 66

**CARDIAU SGORIO** ........ **67**

DIFFINIAD ........ 67

**MODIWL RHANNU FFEILIAU** ........ **69**

**CYFEIRIADURON** ........ **70**

DIFFINIAD ........ 70
GWEITHGAREDDAU ........ 71
Chwilio Drwy Gynnwys y Cyfeiriadur ........ 71
FFEILIAU A FFOLDERI'R CYFEIRIADUR ........ 72
DIFFINIAD ........ 72
GWEITHGAREDDAU ........ 72
Gweld Ffolderi a Ffeiliau ........ 72
Atodi Ffeiliau ........ 72
Creu Ffolderi ........ 73
Copïo Ffolderi a Ffeiliau ........ 73
GOSODIADAU'R CYFEIRIADUR ........ 74
DIFFINIAD ........ 74
GOSODIADAU ........ 74
NODWEDDION Y FFOLDER ........ 75
DIFFINIAD ........ 75
MANYLION Y FFOLDER ........ 75
NODWEDDION Y FFEIL ........ 76
DIFFINIAD ........ 76
MANYLION Y FFEIL ........ 76
FERSIYNAU FFEILIAU BLAENOROL ........ 77
NEGESEUON ........ 77
CYSYLLTIADAU Â MODIWLAU ERAILL ........ 78
NODWEDDION CYFFREDIN ........ 79
DIFFINIAD ........ 79
RHESTRAU GWRTHRYCHAU ........ 79
NEGESEUON ........ 79
RHESTR O ATODIADAU ........ 80
LAWRLWYTHO AR RADDFA FAWR ........ 81

# Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

## Croeso i Cymorth i Gyflenwyr!

Nod y cynnwys hwn yw ceisio egluro’r llwyfan eGyrchu yn nhermau busnes, gan alluogi Cyflenwyr i ddeall nodweddion a manteision y feddalwedd yn gyflym.

Cyflwynir y cynnwys Help drwy fodiwl meddalwedd a chaiff ei rannu'n "wrthrychau" meddalwedd megis PQQs, ITTs ac Arwerthiannau – yn union fel y feddalwedd ei hun.

Mae’r tudalennau Help ar gyfer pob gwrthrych meddalwedd yn darparu popeth sydd ei angen ar Gyflenwr i ddeall cylch oes y gwrthrych. Caiff y broses o reoli pob gwrthrych ei egluro’n fanwl, ynghyd â’r prif weithgareddau y mae’n bosibl y bydd Cyflenwyr am eu perfformio ar y gwrthrych.

Mae’r cynnwys Help yn egluro swyddogaeth lawn y feddalwedd eGyrchu, hyd yn oed os nad yw pob rhan o’r swyddogaeth wedi’i hactifadu ar y llwyfan eto.

Mae cynnwys help ychwanegol ar gael drwy ddefnyddio’r awgrymiadau offer ar y llwyfan. Ceir awgrymiadau offer drwy osod y llygoden uwchben botwm neu label sy’n rhoi help technegol i’r defnyddiwr gyda’r swyddogaeth benodol honno ar y llwyfan.

Gall Cyflenwyr sydd angen cymorth technegol ar frys gysylltu â’r Ganolfan Gweithrediadau Marchnad, a elwir yn Market Operations Centre (MOC) yn Saesneg.   Fel arfer, bydd manylion cyswllt MOC ar hafan pob llwyfan.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Modiwl y Dangosfwrdd

Mae'r Dangosfwrdd yn rhoi detholiad o Borthigau'r Dangosfwrdd sy'n crynhoi eu gweithgareddau ar y llwyfan i'r Cyflenwr. Mae'r Porthigau'n rhoi trosolwg sydyn o waith Cyflenwr ac yn cysylltu'n uniongyrchol â gweithgarwch cyfredol:

- Dangosfwrdd

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Dangosfwrdd

## Diffiniad

Mae'r Dangosfwrdd yn rhoi trosolwg o'u gweithgareddau cyrchu eu hunain ar y llwyfan i bob Cyflenwr. Mae dewis o Borthigau y Dangosfwrdd yn dangos gwybodaeth ddefnyddiol am y rhan fwyaf o fodiwlau llwyfan ac yn rhoi mynediad ar unwaith i'r adrannau perthnasol. Gellir personoli cynllun y Dangosfwrdd, gan alluogi pob Defnyddiwr i ffurfweddu'r Dangosfwrdd at ei ddefnydd ei hun. Gellir defnyddio'r Dangosfwrdd fel y brif dudalen ar gyfer Cyflenwyr, gan ganiatáu i Ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r llwyfan gael y wybodaeth sydd fwyaf perthnasol iddynt yn awtomatig.

## Porthigau y Dangosfwrdd

Mae'r Dangosfwrdd yn cefnogi ystod o Borthigau sy'n darparu gwybodaeth am weithgareddau ar draws y llwyfan ac sy'n cysylltu'r Defnyddiwr â ffynonellau'r wybodaeth honno. Mae rhai Porthigau'n dangos gwybodaeth o swyddogaethau llwyfan penodol, fel PQQs sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr, a dim ond os yw'r swyddogaeth berthnasol wedi'i hactifadu ar y llwyfan y bydd ar gael.

Gall Sefydliad y Prynwr ddewis y Porthigau sydd ar gael i'w dangos i Gyflenwyr ar y Dangosfwrdd. Mae'r rhestr gyflawn o Borthigau a'u swyddogaethau fel a ganlyn:

**Porthigau Cyflenwyr**

**PQQs/ITTs sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr**: Mae'n rhoi crynodeb o'r holl PQQs/ITTs sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr ac yn rhedeg ar hyn o bryd, gan alluogi'r Cyflenwyr i adolygu'r PQQs/ITTs sydd ar gael yn hawdd a gwneud Datganiadau o Ddiddordeb.

**PQQs ac ITTs sydd Angen Ymateb**: Mae'n rhoi crynodeb o'r holl PQQs/ITTs sy'n rhedeg y mae'r Cyflenwr wedi cael gwahoddiad iddo ond nad oes ymateb wedi'i gyflwyno eto, gan alluogi'r Cyflenwr i weld Manylion y PQQ/ITT yn hawdd a chyflwyno ymateb.

**Arwerthiannau Agored ac Yn yr Arfaeth**: Mae'n rhoi rhestr o'r holl Arwerthiannau agored y mae'r Cyflenwr wedi cael gwahoddiad iddynt, a lle croesawir Cynigion.

**Negeseuon Newydd**: Mae'n dangos rhestrau o'r holl wrthrychau, megis PQQs/ITTs neu Gontractau, sy'n cynnwys Negeseuon heb eu darllen a dderbyniwyd o fewn y 30 diwrnod diwethaf, gan alluogi'r Defnyddiwr i gael gafael ar y Negeseuon newydd ym mhob gwrthrych.

**Dolenni Cyflym**: Maent yn darparu dolenni i Ddefnyddwyr berfformio camau cyffredin a chael gafael ar yr adrannau a ddefnyddir amlaf ar y llwyfan

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

**Fy Arolygon sy'n Rhedeg**: Mae'n dangos Arolygon sy'n mynd rhagddynt y mae Sefydliad y Prynwr wedi gofyn i'r Cyflenwr ymateb iddynt.

# Gweithgareddau

## Ffurfweddu Cynllun y Dangosfwrdd

Gall y Defnyddiwr unigol ffurfweddu cynllun y Dangosfwrdd.

Gall y Defnyddiwr ffurfweddu'r Dangosfwrdd at ei ddefnydd ei hun drwy newid trefniant y colofnau ar y dudalen. Gellir mwyhau neu leihau Porthigau unigol, eu llusgo rhwng colofnau a'u symud o fewn colofnau, yn ôl yr angen.

Caiff cynllun y Dangosfwrdd ei gadw ar gyfer pob Defnyddiwr unigol, gan alluogi'r Defnyddiwr i weld yr un cynllun tudalen bob tro y bydd yn defnyddio'r llwyfan.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Modiwl Prosiectau

Mae’r modiwl Prosiectau yn galluogi’r Cyflenwr i ryngweithio â Sefydliad y Prynwr ar weithgareddau cyrchu, drwy weld Prosiectau cyrchu, ymateb i PQQs ac ITTs, gwneud cynigion mewn Arwerthiannau a pherfformio Contractau.

- Prosiectau
- PQQs & ITTs
  - Adolygu Manylion PQQ/ITT
  - Rheoli Ymateb
  - Ar Agor Bob Amser
- Arwerthiannau
  - Adolygu Manylion yr Arwerthiant
  - Monitor yr Arwerthiant
  - Arwerthiant Ar Agor Bob Amser
- Contractau
  - Adolygu Manylion Contract
  - Contract Ar Agor Bob Amser

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Prosiectau

## Diffiniad

Cynhwysydd a gaiff ei greu gan Brynwr er mwyn trefnu gweithgareddau cyrchu cysylltiedig, fel PQQ/ITT, Arwerthiannau, Contractau ac atodiadau ffeil yw Prosiect.

Mae Prosiectau yn galluogi Prynwyr i drefnu eu gweithgareddau cyrchu'n effeithlon, ac yn galluogi Cyflenwyr i ddod o hyd i weithgareddau cysylltiedig yn haws.

Yn gyffredinol, mae pob Prosiect yn cyfateb i un achos o gyflawni proses gyrchu sefydliad y Prynwr. Mae'r Prosiect yn cynnwys yr holl weithgareddau cyrchu sy'n gysylltiedig â'r achos hwnnw o gyflawni'r broses.

Dim ond y Prosiectau hynny sy’n cynnwys gwrthrychau, fel PQQ/ITT, y mae’r Cyflenwr yn cymryd rhan ynddynt mae’n gallu eu gweld.

Mae pob Prosiect yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Gosodiadau'r Prosiect: Mae’n rhoi gwybodaeth bwysig am y Prosiect.
- Gwrthrychau Fy Mhrosiect: Mae'n dangos unrhyw Wrthrychau cyrchu yn y Prosiect, fel PQQs, ITTs, Arwerthiannau a Chontractau y gall y Cyflenwr eu gweld.
- Atodiadau Prosiect: Mae’n nodi’r ffeiliau y mae’r Prynwr wedi’u hatodi i’r Prosiect.
- Gweithgareddau Prosiect: Mae’n rhoi gwybodaeth am y prif Weithgareddau sydd wedi’u cynllunio ar gyfer cylch oes y Prosiect.

## Gosodiadau'r Prosiect

Mae tudalen Manylion y Prosiect yn rhoi gwybodaeth bwysig am y Prosiect, megis Teitl a Chyfeirnod y Prosiect. Dylai Cyflenwyr ddyfynnu'r wybodaeth hon ar unrhyw ohebiaeth gyda Sefydliad y Prynwr, ac wrth gysylltu â'r Ganolfan Gweithrediadau Marchnad.
Gall y dudalen Gosodiadau hefyd ddangos gwybodaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Prosiect, gan gynnwys y Math o Brosiect, Categori'r Prosiect, y rhestr o Wrthrychau ar lefel y Prosiect ac unrhyw Gyfle a Gyhoeddwyd sy'n gysylltiedig â'r Prosiect hwnnw.
Os yw'r Prosiect yn cynnwys Aml-lotiau PQQ/ITT, dangosir y wybodaeth hon hefyd i Gyflenwyr ar Osodiadau'r Prosiect.

## Gwrthrychau fy Mhrosiect

Mae'r dudalen Gwrthrychau Fy Mhrosiect yn dangos rhestr o'r holl Wrthrychau, fel PQQs, ITTs, Arwerthiannau a Chontractau sydd wedi'u cyhoeddi yn y Prosiect gan Brynwyr. Caiff Gwrthrychau eu trefnu'n rhestrau yn ôl math.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Mae Gwrthrychau fy Mhrosiect yn rhoi golwg gryno sydyn ar yr holl Wrthrychau cysylltiedig ac yn dangos gwybodaeth bwysig fel y Statws Ymateb a'r Dyddiad/Amser Cau tra'n rhoi mynediad cyflym i bob Gwrthrych unigol.
Mae'r gallu i weld PQQs/ITTs ac Arwerthiannau yn dibynnu ar y Cyflenwr yn cael gwahoddiad i'r Gwrthrych gan y Prynwr, neu drwy fod wedi gwneud Datganiad o Ddiddordeb.
Ar gyfer Contractau, mae'r gallu i'w gweld yn dibynnu ar y Cyflenwr yn cael ei enwi fel y Prif Gontractwr gan y Prynwr.

## Cyfleoedd RFx Cysylltiedig

Mae'r dudalen Cyfleoedd PQQ/ITT Cysylltiedig yn dangos rhestr o PQQs/ITTs sydd ar Agor i Bob Cyflenwr a gyhoeddwyd gan y Prynwr yn y Prosiect hwnnw a lle nad yw'r Cyflenwr wedi gwneud Datganiad o Ddiddordeb eto.
Os bydd y Cyflenwr yn penderfynu gwneud Datganiad o Ddiddordeb, bydd y PQQ/ITT ar gael ar unwaith yn y rhestr o Wrthrychau'r Prosiect.
Mae'r botwm "Gweld Cyfleoedd a Gyhoeddwyd" yn dangos yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Rhestr o Gyfleoedd ar y Prosiect, gan gynnwys unrhyw Hysbysiadau cysylltiedig.

## Atodiadau Prosiect

Mae'r dudalen Atodiadau Prosiect yn dangos rhestr o'r holl ffeiliau sydd wedi'u cadw yn y Prosiect gan Gyflenwyr.

Caiff Atodiadau Prosiect eu rheoli drwy ddefnyddio’r swyddogaeth Atodiadau safonol, a ddisgrifir yn fanwl yma.

## Gweithgareddau Prosiect

Mae'r dudalen Gweithgareddau yn dangos rhestr o bob Gweithgaredd sydd wedi'i ffurfweddu gan y Prynwr ar y Prosiect.
Mae Gweithgareddau yn gerrig milltir pwysig mewn Prosiect, ac efallai y byddant yn gofyn i Gyflenwyr sy’n cymryd rhan yn y Prosiect i berfformio’r gweithgareddau a nodir erbyn amser penodol.

## Gweithgareddau

### Gweld Prosiectau

Er mwyn gweld Prosiect mewn Rhestr o Brosiectau, rhaid bod Sefydliad y Cyflenwr wedi cael gwahoddiad i Ddigwyddiad a gaiff ei gynnwys mewn Prosiect, neu wedi gwneud Datganiad o Ddiddordeb ynddo.

Gellir gweld Manylion y Prosiect drwy glicio ar unrhyw Brosiect yn y Rhestr o Brosiectau.

# Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Mae Hidlyddion Prosiect yn galluogi Cyflenwr i reoli'r Prosiectau a ddangosir mewn Rhestr drwy ddangos y Prosiectau sy'n cyfateb i'r meini prawf penodol yn unig.

## Gweld Cyfle a Gyhoeddwyd

Mae gan Sefydliad y Cyflenwr ffyrdd gwahanol o weld Cyfle a Gyhoeddwyd:

- Drwy gael Hysbysiad e-bost yn cadarnhau bod Cyfle newydd wedi'i gyhoeddi neu bod un sy'n bodoli eisoes wedi'i ddiwygio; bydd yr Hysbysiad hwn yn caniatáu mynediad uniongyrchol i'r Cyfle drwy hyperddolen;
- Unwaith y bydd wedi mewngofnodi, drwy fynd i'r Brif Dudalen yn yr ardal Cyfleoedd a gyhoeddwyd, lle mae Cyfleoedd Presennol a Chyfleoedd a Aeth Heibio ar gael ar unwaith;
- Unwaith y bydd wedi mewngofnodi ac wedi dewis adran y Prosiect, gan fynd i'r adran Manylion y Prosiect, a dilyn unrhyw ddolenni Negeseuon Rhybudd cysylltiedig, gan ei gwneud yn bosibl gwneud Datganiad o Ddiddordeb mewn un PQQ/ITT neu fwy sydd ar Agor i Bob Cyflenwr sydd wedi'i gynnwys yn y Prosiect. Yn yr achos hwn, gall Cyflenwr weld Manylion y Cyfle ac unrhyw Hysbysiad cysylltiedig, drwy glicio ar y botwm "Gweld y Cyfleoedd a Gyhoeddwyd".

# PQQs/ITTs

## Diffiniad

Defnyddir **Holiadur Cyn Cymhwyso** (neu PQQ) i gasglu gwybodaeth Gymhwyso a Thechnegol gan Gyflenwyr er mwyn gwerthuso'r sail Cyflenwyr a chyfyngu'r gystadleuaeth i Gyflenwyr cymwys. Gellir terfynu PQQs sydd wedi cau ar y llwyfan a'u trosi'n ITTs.

Defnyddir **Gwahoddiad i Dendro** (neu ITT) i gasglu gwybodaeth Dechnegol a Masnachol fanwl gan Gyflenwyr cyn cymhwyso ar ffurf cynnig preifat. Gellir trosi ITTs sydd wedi cau ar y llwyfan yn Arwerthiannau, neu eu dyfarnu, a'u trosi'n Gontractau.

Defnyddir y term cyffredinol "PQQ/ITT" i ddisgrifio ymddygiad cyffredin PQQs ac ITTs ar y llwyfan.
Rheolir pob PQQ/ITT ar y llwyfan gan Brynwr o fewn Sefydliad y Prynwr. Gall y Prynwr ffurfweddu Gosodiadau'r PQQ/ITT, megis y terfyn amser ar gyfer ymateb a'r strategaeth dyfarnu, a phenderfynu sut y dylai Cyflenwyr allu cymryd rhan. Hefyd, gall y Prynwr atodi ffeiliau i'r PQQ/ITT at sylw Cyflenwyr sy'n cymryd rhan.

Unwaith y bydd y PQQ/ITT wedi'i gyhoeddi i Gyflenwyr, bydd adran Negeseuon ddiogel yn galluogi Cyflenwyr i gyfathrebu â'r Prynwr yn ystod ac ar ôl proses y PQQ/ITT. Fel arfer, bydd Cyflenwyr yn cael eu hysbysu am gerrig milltir neu newidiadau pwysig ar y PQQ/ITT drwy Rybudd e-bost.

Dylai Cyflenwyr adolygu manylion y PQQ/ITT, ac yna penderfynu p'un a ddylent gyflwyno ymateb i'r Prynwr.

Caiff ymateb PQQ/ITT ei greu drwy gwblhau'r Amlenni ymateb PQQ/ITT yn unol â chyfarwyddiadau'r Prynwr. Mae Prynwyr yn defnyddio Amlenni ymateb mewn PQQ/ITT o gasglu gwybodaeth gan Gyflenwyr mewn ffordd strwythuredig. Gall Amlenni gynnwys Holiaduron y mae'n rhaid i Gyflenwyr ymateb iddynt, a gallant hefyd ganiatáu Cyflenwyr i lanlwytho atodiadau mewn ymateb i'r PQQ/ITT.

Rhaid cyflwyno ymateb PQQ/ITT llawn Cyflenwr i'r Prynwr cyn Dyddiad ac Amser Cau'r PQQ/ITT.

Ar ôl y Dyddiad a'r Amser Cau, caiff y PQQ/ITT ei agor a'i werthuso'n swyddogol. Mae gan Brynwyr sawl opsiwn o ran terfynu PQQs wedi'u gwerthuso ac o ran dyfarnu ITTs wedi'u gwerthuso. Fel arfer, caiff canlyniad y PQQ/ITT ei gyflwyno i Gyflenwyr ar ffurf Rhybudd e-bost, neu drwy'r adran Negeseuon ddiogel, a chaiff ei adlewyrchu bob amser ym meysydd Statws a Statws Ymateb y PQQ/ITT. Gall y Prynwr hefyd gyhoeddi dogfen ganlyniadau ar y PQQ/ITT, er mwyn dadfriffio Cyflenwyr yn swyddogol, a gall ddyfarnu Contract ar y llwyfan ar sail ymateb ITT llwyddiannus.

Mae pob PQQ/ITT yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- **Manylion PQQ/ITT: Mae'n galluogi'r Cyflenwr i weld yr holl wybodaeth bwysig am y PQQ/ITT**.
- **Gosodiadau** - rhoi manylion am gyfeiriad a ffurfweddu gwybodaeth am y PQQ/ITT
- **Cyflwyno Ymateb**: Mae'n galluogi'r Cyflenwr i lunio a chyflwyno Ymateb i'r PQQ/ITT.
- **Canlyniadau Cyhoeddedig**: Mae'n nodi unrhyw ddogfennau sy'n adrodd ar ganlyniad swyddogol y PQQ/ITT sydd wedi'u hatodi gan y Prynwr ac unrhyw Gontractau a ffurfiwyd gyda Sefydliad y Prynwr o ganlyniad i ITT.
- **Negeseuon a Hawliau Defnyddwyr (Ar Agor Bob Amser)**: Mae'n galluogi'r Cyflenwr i rannu'r PQQ/ITT gyda chydweithwyr ar y llwyfan a chyfnewid Negeseuon gyda'r Prynwr.
- ITTs Prosiect Aml-Lot: Gellir cysylltu ITTs er mwyn ffurfio Prosiect Aml-Lot. Mae'r mathau hyn o Brosiect fel arfer yn cynnwys mwy nag un ITT er mwyn eu cwblhau ac mae'r ardal arbennig hon yn helpu Cyflenwyr i nodi gweithgareddau i'w cyflawni ar gyfer ITTs Aml-Lot.

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Yn dibynnu ar ffurfwedd y llwyfan, gall Prynwyr ddefnyddio'r adran **Adroddiad Dadfriffio'r Ymateb** ar ITT, i roi Adroddiad Dadfriffio'r Ymateb i unrhyw Gyflenwyr Aflwyddiannus.

Cynllunnir yr Adroddiad Dadfriffio'r Ymateb er mwyn galluogi Prynwr i rannu gwybodaeth am y penderfyniad Dyfarnu ar ITT, yn unol â Chyfarwyddebau Datrysiadau Caffael Cyhoeddus yr UE.

# Gweithgareddau

### Gweld PQQ/ITT sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr

Gall Cyflenwyr weld PQQ/ITT ar y llwyfan mewn dwy ffordd.

- Dim ond Cyflenwyr cofrestredig sydd wedi cael gwahoddiad penodol gan y Prynwr sy'n gallu gweld PQQ/ITT **Trwy Wahoddiad yn Unig**. Gellir gweld y PQQ/ITT Trwy Wahoddiad yn Unig ar y tudalennau **Fy PQQs** a **Fy ITTs**.
- Gall unrhyw Gyflenwr sydd wedi'i gofrestru ar y llwyfan weld PQQ/ITT sydd **Ar Agor i Bob Cyflenwr**. Gellir gweld y PQQ/ITT sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr ar y tudalennau **PQQs ac ITTs sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr**.

Gall Cyflenwr weld manylion penodol PQQ/ITT sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr, a phenderfynu p'un a ydynt am wneud Datganiad o Ddiddordeb yn y PQQ/ITT.

### Mynegi Diddordeb mewn PQQ/ITT sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr

Rhaid i Gyflenwr wneud Datganiad o Ddiddordeb mewn PQQ/ITT penodol sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr er mwyn cyflwyno ymateb i'r PQQ/ITT hwnnw. Mae'r weithred o Fynegi Diddordeb yn gyfystyr â'r Cyflenwr yn cael gwahoddiad gan y Prynwr i gymryd rhan yn y PQQ/ITT. Unwaith y bydd Cyflenwr wedi gwneud Datganiad o Diddordeb mewn PQQ/ITT, bydd y PQQ/ITT yn symud o'r tudalennau PQQ/ITT sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr, i'r tudalennau Fy PQQ/ITT. Bydd Cyflenwyr yn cael Rhybudd drwy e-bost sy'n gysylltiedig â'r PQQ/ITT a byddant yn gallu gweld manylion llawn y PQQ/ITT, gan gynnwys unrhyw Atodiadau gan y Prynwr, yr adran Negeseuon ddiogel a'r holl Amlenni ymateb.

Gall y Prynwr nodi faint o oriau sydd nes bod yn rhaid cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb, cyn Dyddiad ac Amser Cau'r PQQ/ITT. Wedyn, bydd y PQQ/ITT wedi'i guddio rhag unrhyw Gyflenwyr sydd wedi methu â gwneud Datganiad o Ddiddordeb.

Hyd yn oed ar ôl gwneud Datganiad o Ddiddordeb, rhaid i Gyflenwr hefyd cwblhau a chyflwyno ymateb i'r PQQ/ITT cyn y Dyddiad a'r Amser Cau er mwyn cael eu hystyried yng ngwerthusiad y Prynwr.

### Gweld Manylion PQQ/ITT

Gellir gweld Manylion PQQ/ITT drwy glicio ar unrhyw PQQ/ITT yn y rhestrau PQQ/ITT.
Gall Cyflenwyr Chwilio neu Hidlo drwy'r rhestrau PQQ/ITT er mwyn gweld PQQ/ITT penodol, neu weld is-set o PQQ/ITT ar y rhestrau.
Mae'r llwyfan yn darparu cyfres o Hidlyddion Safonol sy'n galluogi Cyflenwyr i ganfod yr is-setiau mwyaf cyffredin o PQQ/ITT yn gyflym ac yn hawdd. Mae enghreifftiau o Hidlyddion Safonol yn cynnwys PQQ/ITT yr Edrychwyd arnynt yn Ddiweddar a PQQ/ITT Cyfredol.
Mae'r swyddogaeth Chwilio yn galluogi'r Cyflenwr i ffurfweddu chwiliadau am PQQ/ITT, gan ddefnyddio meysydd o Fanylion y PQQ/ITT neu o'r Prosiect sy'n cynnwys y PQQ/ITT, fel meini prawf. Gall Cyflenwyr hefyd

hidlo PQQ/ITT yn ôl Statws PQQ/ITT, ac yn ôl cynnwys unrhyw feysydd Gwybodaeth Ychwanegol sydd wedi'u cadw am y PQQ/ITT.

# Adolygu Manylion PQQ/ITT

## Diffiniad

Mae Manylion PQQ/ITT yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y PQQ/ITT a'i ffurfwedd, gan gynnwys disgrifiad llawn o'r PQQ/ITT, y terfyn amser ar gyfer cyflwyno ymatebion, a'r ffeiliau sydd wedi'u hatodi i'r PQQ/ITT at sylw Cyflenwyr.

Mae rhai Manylion PQQ/ITT mor bwysig fel y cânt eu nodi ar bob tudalen o'r PQQ/ITT:

- **Prosiect PQQ/ITT**: Mae'n dangos Teitl y Prosiect sy'n gysylltiedig â'r PQQ/ITT.
- **Cod a Theitl y PQQ/ITT**: Mae'n nodi Cod y PQQ/ITT, y dylid ei ddyfynnu wrth gysylltu â'r Ganolfan Gweithrediadau Marchnad, a Theitl swyddogol y PQQ/ITT.
- **Dyddiad ac Amser Cau'r PQQ/ITT**: Mae'n nodi'r terfyn amser i Gyflenwyr ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r PQQ/ITT.
- **Statws Ymateb PQQ/ITT**: Mae'n nodi statws cyfredol ymateb y Cyflenwr i'r PQQ/ITT.

Mae'n hollbwysig fod Cyflenwyr yn adolygu holl Fanylion y PQQ/ITT cyn gynted â phosibl yn ystod proses y PQQ/ITT, cyn cwblhau a chyflwyno ymateb PQQ/ITT i'r Prynwr.

Gellir gweld Manylion PQQ/ITT o'r adrannau canlynol:

- **Gosodiadau PQQ/ITT**: Mae'n nodi gwybodaeth a ffurfwedd y PQQ/ITT.
- **Atodiadau Prynwr**: Mae'n nodi rhestr o'r ffeiliau sydd wedi'u hatodi i'r PQQ/ITT gan y Prynwr.

## Gosodiadau PQQ/ITT

Mae Gosodiadau PQQ/ITT yn cynnwys y wybodaeth Drosolwg o'r PQQ/ITT, a manylion ffurfwedd y PQQ/ITT. Mae'r dudalen Gosodiadau wedi'i rhannu'n adrannau o wybodaeth gysylltiedig:

- **Trosolwg**: Mae'n nodi gwybodaeth bwysig fel Teitl a Disgrifiad y PQQ/ITT, Math o Fynediad Cyflenwr, sy'n rheoleiddio sut y bydd Cyflenwyr yn gallu cymryd rhan yn y PQQ/ITT.
- **Ffurflenni Gwybodaeth Ychwanegol**: Mae Ffurflenni Gwybodaeth Ychwanegol yn ddewisol i Sefydliad pob Prynwr. Mae Ffurflenni Gwybodaeth Ychwanegol yn galluogi Sefydliad y Prynwr i nodi gwybodaeth am bob PQQ/ITT na chesglir gan y Gosodiadau llwyfan safonol.
- **Gwybodaeth am y Dyddiad ac Amser**: Mae'n nodi dyddiad ac amser y newid diweddaraf i'r PQQ/ITT, y dyddiad cyhoeddi, y terfyn amser ar gyfer cyflwyno ymateb Cyflenwr i'r PQQ/ITT, a therfyn amser dewisol i Gyflenwyr wneud cais am eglurhad. Mae hefyd yn dangos yr Opsiwn dewisol ar gyfer Gweld Ymatebion, sy'n nodi sut y bydd y Prynwr yn gallu gweld ymatebion Cyflenwyr i'w gwerthuso.
- **Gosodiadau Amlen**: Mae'n rhoi rhestr o'r Amlenni ymateb y mae'n rhaid i Gyflenwyr eu cwblhau er mwyn cyflwyno ymateb i'r PQQ/ITT.
- **Strategaeth Ddyfarnu**: Mae'n nodi'r dull y dylid ei ddefnyddio i raddio ymatebion Cyflenwyr i'r PQQ/ITT, gan gynnwys unrhyw ffurfwedd sgorio a sut y gellir dyfarnu'r PQQ/ITT.
- **Cynigion Anomalaidd**: Mae'n nodi os caiff Ymatebion Masnachol anomalaidd eu heithrio'n awtomatig o'r broses werthuso.
- **Telerau**: Mae'n nodi unrhyw delerau penodol ar gyfer cynnal y PQQ/ITT.

### Deall Gosodiadau PQQ/ITT

Mae Gosodiadau PQQ/ITT yn disgrifio ffurfwedd y PQQ/ITT ar y llwyfan.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Mae'n bwysig bod Cyflenwyr yn deall yr effeithiau y caiff Gosodiadau penodol ym mhob adran o'r dudalen Gosodiadau ar broses y PQQ/ITT.

**Trosolwg**

Mae'r adran Trosolwg yn nodi gwybodaeth bwysig am y PQQ/ITT, gan gynnwys disgrifiad llawn o'r PQQ/ITT, a manylion y Prynwr sy'n rheoli'r PQQ/ITT o fewn Sefydliad y Prynwr.

Gall y Prynwr benderfynu Caniatáu i Gyflenwyr Ymateb drwy Gonsortiwm. Os yw'r gosodiad hwn yn weithredol, gall Cyflenwr ddefnyddio dolen o fewn yr ardal Ymateb i nodi manylion unrhyw sefydliadau eraill y mae'r Cyflenwr yn cyflwyno ymateb i'r PQQ/ITT ar eu rhan. Mae'r nodwedd Consortiwm yn galluogi Cyflenwyr i roi gwybod yn swyddogol i'r Prynwr eu bod yn ymateb ar ran consortiwm, a nodi cyfansoddiad swyddogol y consortiwm.

Mae'r gosodiad Math o Fynediad Cyflenwr yn nodi'r modd y gall Cyflenwyr weld PQQ/ITT.
Gellir rhoi mynediad i Gyflenwyr naill ai Drwy Wahoddiad yn Unig, neu'n Agored i Bob Cyflenwr:

- Lle y bydd PQQ/ITT **Drwy Wahoddiad yn Unig**, rhaid i'r Prynwr ddewis Cyflenwyr i'w gwahodd i'r PQQ/ITT. Dim ond Cyflenwyr a gaiff wahoddiad all weld y PQQ/ITT a chyflwyno ymateb i'w werthuso.
- I'r gwrthwyneb, lle y bydd PQQ/ITT yn Agored i Bob Cyflenwr, gall unrhyw Gyflenwr cofrestredig weld y PQQ/ITT ar y llwyfan a chyflwyno ymateb i'w werthuso.

Mae'r maes Profi yn galluogi Prynwr i nodi bod PQQ/ITT wedi'i fwriadu'n benodol at ddibenion profi a hyfforddi. Nodir PQQ/ITT Profi yn glir fel y cyfryw fath ar ochr y Prynwr a'r Cyflenwr o'r llwyfan. Gall y Prynwr ddefnyddio PQQ/ITT Profi i alluogi Cyflenwyr i weld sut y bwriedir ffurfweddu PQQ/ITT pwysig, ac i ymarfer y broses ymateb.

Mae dau opsiwn ffurfweddu pellach yn cynnig nodweddion diogelwch ychwanegol yn ystod y broses PQQ/ITT. Mae'r nodwedd Anfon E-bost Ardystiedig ar gael mewn rhai gwledydd penodol, er mwyn cadarnhau dilysrwydd trydydd parti pob Rhybudd e-bost a anfonir gan y llwyfan yn ystod y broses PQQ/ITT. Efallai y rhoddir dewis i'r Prynwr hefyd ei gwneud yn ofynnol i ymatebion PQQ/ITT gael eu llofnodi'n ddigidol gan Gyflenwyr. Mae'r nodwedd hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gyflenwyr atodi dogfennau PDF wedi'u llofnodi'n ddigidol i bob Amlen PQQ/ITT yn ystod y broses ymateb, gan roi cadarnhad trydydd parti i'r Prynwr o'r unigolyn sy'n cyflwyno'r ymateb.

**Gwybodaeth am y Dyddiad ac Amser**

Mae'r adran Gwybodaeth am y Dyddiad ac Amser yn cynnwys Dyddiad ac Amser Cau, sef y terfyn amser swyddogol i Gyflenwyr gyflwyno ymatebion i'r PQQ/ITT. Rhaid i Gyflenwyr gyflwyno ymateb i'r PQQ/ITT cyn y Dyddiad a'r Amser Cau. Bydd y llwyfan yn atal unrhyw ymgais i gyflwyno ymateb ar ôl y terfyn amser hwn.

Gall Prynwyr bennu dyddiad cau i Gyflenwyr ofyn am esboniadau ar gynnwys y PQQ/ITT, gan alluogi i ymholiadau hwyr gan Gyflenwyr drwy'r adran Negeseuon ddiogel gael eu gwrthod yn awtomatig.

Yn achos PQQ/ITT sydd Ar Agor i Bob Cyflenwr, gall y Prynwr hefyd nodi nifer yr oriau nes bod yn rhaid cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb, cyn Dyddiad ac Amser Cau'r PQQ/ITT.

Mae'r gosodiad Opsiwn ar gyfer Gweld Ymatebion yn rheoli faint o ymatebion Cyflenwyr sydd wedi'u cyflwyno y gall y Prynwr ei weld.

- **Heb eu selio**: Gall y Prynwr weld ymatebion sydd wedi'u cyflwyno hyd yn oed pan fydd y PQQ/ITT yn rhedeg.
- **Wedi'u selio (dilyniannol)**: Mae ymatebion sydd wedi'u cyflwyno wedi'u cuddio rhag y Prynwr hyd nes terfyn amser y PQQ/ITT, a nes y bydd gwerthusiad y Prynwr o Amlenni blaenorol wedi gorffen yn swyddogol.

- **Wedi'u selio (cyfochrog)**: Ni fydd y Prynwr yn gweld yr ymatebion sydd wedi'u cyflwyno hyd nes y bydd dyddiad cau'r PQQ/ITT wedi mynd heibio.

**Gosodiadau Amlen**

Mae'r Gosodiadau Amlen yn dangos yr Amlenni ymateb y mae'n rhaid i Gyflenwyr eu cwblhau er mwyn cyflwyno ymateb i'r PQQ/ITT.

Gellir defnyddio pob math o Amlen at ddiben ychydig yn wahanol o fewn y PQQ/ITT:

- **Amlen Gymhwyso**: Fe'i defnyddir i gasglu gwybodaeth i gymhwyso Cyflenwyr i'w gwerthuso mewn Amlenni PQQ/ITT dilynol.
- **Amlen Dechnegol**: Fe'i defnyddir i gasglu gwybodaeth dechnegol fanwl.
- **Amlen Fasnachol**: Fe'i defnyddir i gasglu cynigion o ran prisiau.

**Gosodiadau'r Strategaeth Ddyfarnu**

Mae Gosodiadau'r Strategaeth Ddyfarnu yn dynodi pa ddull y dylid ei ddefnyddio i raddio ymatebion gan Gyflenwyr wrth derfynu a dyfarnu'r PQQ/ITT.
Mae'r llwyfan yn darparu'r opsiynau canlynol:

- **Dim Graddio**: Caiff ymatebion eu trefnu yn ôl dyddiad ac amser.
- **Sgôr Technegol Gorau**: Rhaid i'r Prynwr ddynodi Uchafswm Sgôr Technegol. Gellir dyfarnu pwyntiau i ymatebion technegol, hyd at yr uchafswm hwn, ac fe'u trefnir yn unol â hynny.
- **Ymateb Masnachol Gorau**: Rhaid i'r Prynwr ddynodi Uchafswm Sgôr Masnachol. Dyfernir pwyntiau i ymatebion masnachol, hyd at yr uchafswm hwn, ac fe'u trefnir yn unol â hynny. Gellir pennu uchafswm pwyntiau naill ai i'r ymateb Masnachol isaf neu uchaf.
- **Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd** (M.E.A.T.): Rhaid i'r Prynwr ddynodi Uchafswm Sgoriau Technegol a Masnachol. Caiff ymatebion cyflenwyr eu graddio yn ôl y sgoriau Technegol a Masnachol cyfun.

### Gweld Crynodeb o'r PQQ/ITT

Mae'r swyddogaeth Sgrîn Argraffu yn rhoi crynodeb un dudalen i Gyflenwyr o'r PQQ/ITT cyfan, gan gynnwys yr holl Osodiadau, Atodiadau Prynwr ac Amlenni ymateb.

Gellir hefyd weld data ymateb ar y Sgrîn Argraffu unwaith y mae Cyflenwr wedi dechrau llunio ymateb i'r PQQ/ITT, drwy ymateb i'r Holiaduron ym mhob Amlen a thrwy atodi ffeiliau i'r Amlenni.

Mae'r Sgrîn Argraffu hefyd yn galluogi'r Cyflenwr i weld adolygiad llawn o'r PQQ/ITT, ynghyd ag argraffu neu gadw'r manylion mewn fformat PDF y gellir ei rannu gyda chydweithwyr.

## Atodiadau Prynwr

Mae'r dudalen Atodiadau Prynwr PQQ/ITT yn rhoi rhestr o ffeiliau y mae'r Prynwr wedi'u hatodi i'r PQQ/ITT. Mae Prynwr yn atodi ffeiliau i'r PQQ/ITT at sylw cyflenwyr sy'n cymryd rhan, a gallant drefnu'r ffeiliau yn ffolderi o wybodaeth berthnasol. Mae Atodiadau Prynwr yn rhan bwysig iawn o'r PQQ/ITT, a dylai'r holl Gyflenwyr eu lawrlwytho a'u darllen cyn gynted â phosibl.

Caiff Atodiadau PQQ/ITT eu rheoli gan ddefnyddio'r swyddogaeth Atodiadau safonol.

***Noder: Lawrlwythwch a darllenwch yr holl Atodiadau Prynwr cyn gynted â phosibl.***

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Cyflwyno Ymateb

## Diffiniad

Dylai Cyflenwyr sy'n cymryd rhan mewn PQQ/ITT adolygu manylion y PQQ/ITT yn gyntaf, ac yna penderfynu p'un a ddylent gyflwyno ymateb i'r Prynwr.
Caiff ymateb PQQ/ITT ei greu drwy gwblhau'r Amlenni ymateb PQQ/ITT yn unol â chyfarwyddiadau'r Prynwr.
Gellir cwblhau Amlenni PQQ/ITT drwy ateb Holiaduron ar-lein, a thrwy atodi ffeiliau i'r ymateb.
Mae'r adran Fy Ymateb yn galluogi Cyflenwr i weld Holiaduron PQQ/ITT, golygu a chadw ymateb i'r PQQ/ITT dros gyfnod o amser a chyflwyno ymateb cyflawn i'r Prynwr.
Rhaid cyflwyno ymateb PQQ/ITT llawn Cyflenwr i'r Prynwr cyn Dyddiad ac Amser Cau'r PQQ/ITT.

## Fy Ymateb

Mae'r dudalen Fy Ymateb yn galluogi Cyflenwr i reoli'r broses o ymateb i'r PQQ/ITT.
Rhaid i Gyflenwr ymateb i PQQ/ITT drwy gwblhau'r holl Gwestiynau gorfodol a/neu'r Eitemau Llinell yn yr Holiaduron Cymhwyso, Technegol a Masnachol, a thrwy atodi unrhyw ffeiliau y mae'r Prynwr wedi gofyn amdanynt.
Mae'r dudalen Fy Ymateb yn cynnwys Crynodeb o'r Ymateb, sy'n rhoi adborth ar yr ymateb ac yn cadarnhau pan fydd yr holl Gwestiynau gorfodol a'r meysydd Masnachol gorfodol wedi'u cwblhau.

### Penderfynu Ymateb

Mae gan Gyflenwyr bob amser yr opsiwn i dderbyn y gwahoddiad i ymateb i'r PQQ/ITT neu wrthod ymateb.
Y weithred o dderbyn y gwahoddiad i ymateb yw cam cyntaf y broses o lunio a chyflwyno ymateb. Fel arall, os nad yw Cyflenwr yn bwriadu cyflwyno ymateb am ba reswm bynnag, gall y Cyflenwr wrthod ymateb yn swyddogol. Gall y Prynwr weld ei fod wedi penderfynu gwrthod y PQQ/ITT, a gofynnir i'r Cyflenwr roi sylw ar y penderfyniad.
Gall Cyflenwr wrthod ymateb i'r PQQ/ITT ac yna gwrthdroi'r penderfyniad hwn ar unrhyw adeg cyn Dyddiad ac Amser Cau y PQQ/ITT.
I'r gwrthwyneb, gall Cyflenwr dderbyn y gwahoddiad i lunio ymateb, ac yna gwrthdroi'r penderfyniad hwn gan ddileu'r ymateb cyn y Dyddiad ac Amser Cau. Gellir dileu ymatebion i PQQ/ITT sydd Wedi'i Selio cyn y Dyddiad ac Amser Cau, hyd yn oed os yw wedi'i gyflwyno i'r Prynwr, ond dim ond os nad ydynt wedi'u hanfon i'r Prynwr y gellir dileu ymatebion i PQQ/ITT sydd Heb ei Selio.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

## Cwblhau Ffurflenni Ymateb PQQ/ITT

Efallai y bydd gofyn i Gyflenwyr gwblhau hyd at dair Ffurflen Ymateb, yn dibynnu ar yr Amlenni sydd wedi'u ffurfweddu ar y PQQ/ITT.

Rhaid i Gyflenwyr ymateb i PQQ/ITT drwy ateb yr holl feysydd gorfodol (a nodir â seren goch) ar bob Ffurflen.

Gellir cyflwyno Adrannau Cysylltiedig Amodol o Gwestiynau i Gyflenwyr o ganlyniad i'w hymateb i Gwestiwn sbarduno. Mae'r Adrannau hyn yn aros yn gudd os na chaiff yr ymateb penodol sy'n gysylltiedig â'r Adran ei ddewis.

Gall prynwyr roi atodiad cyfarwyddol ar bob Cwestiwn, er mwyn rhoi cyngor ar sut y dylai Cyflenwr ymateb. Dim ond wrth olygu ymateb PQQ/ITT y mae atodiadau cyfarwyddol ar gael i Gyflenwyr.

Gall Eitemau Llinell yn y Ffurflen Amlen Fasnachol fod yn orfodol neu'n ddewisol. Yn achos Eitemau Masnachol dewisol, rhaid i'r Cyflenwr nodi'n swyddogol p'un a yw'n bwriadu ymateb i bob Eitem Llinell. Gall Cyflenwyr lunio ac addasu ymateb i PQQ/ITT dros amser, ond rhaid iddynt gyflwyno'r ymateb i'r Prynwr cyn Dyddiad ac Amser Cau'r PQQ/ITT.

Gellir parhau i addasu ymatebion sydd wedi'u cyflwyno hyd nes y Dyddiad ac Amser Cau. Yn yr achos hwn, bob tro y caiff addasiad i'r ymateb ei gadw bydd yn creu fersiwn newydd o'r ymateb. Bydd y Prynwr yn gwerthuso'r cyflenwr gan ddefnyddio'r ymateb diweddaraf a gyflwynwyd i'r PQQ/ITT.

Pan fo Proffiliau Cyflenwyr Sylfaenol ac Estynedig ar gyfer ar y llwyfan, bydd yr Adrannau o fewn yr Amlenni yn un o ddau fath. Defnyddir Adrannau i gasglu ymatebion a gaiff eu defnyddio i werthuso ar y PQQ/ITT unigol. I'r gwrthwyneb, mae Adrannau Rheoli Gwerthwyr yn cynnwys Cwestiynau a ddewiswyd o'r Proffil Cyflenwr. Caiff ymatebion Cyflenwyr i Gwestiynau Proffil mewn PQQ/ITT eu cyflwyno'n awtomatig o'r ymatebion sydd eisoes wedi'u cadw ym Mhroffil y Cyflenwr, gan arbed amser i Gyflenwyr yn ystod y broses ymateb PQQ/ITT. Caiff unrhyw newidiadau i ymatebion Proffil Cyflenwr ar gyfer y PQQ/ITT eu cadw yn y Proffil Cyflenwr ar ôl gwerthuso'r PQQ/ITT.

## Allforio a Mewnforio Ymateb i Excel

Fel dewis arall i lunio ymateb i PQQ/ITT drwy lenwi Ffurflenni Ymateb ar-lein, gall Cyflenwyr lunio neu olygu ymatebion i Amlenni all-lein, ac yna mewnforio'r ymateb i'r llwyfan.

Mae'r llwyfan yn rhoi taenlen Excel i Gyflenwyr sy'n cynnwys yr holl Ffurflenni Ymateb o'r PQQ/ITT. Gall Cyflenwyr allforio a chadw'r daenlen ymateb ar eu cyfrifiaduron eu hunain, a nodi ymatebion ar y daenlen. Yna gellir mewnforio'r daenlen hon sy'n cynnwys yr ymatebion yn ôl i'r llwyfan, er mwyn cwblhau'r ymatebion i Amlenni'r PQQ/ITT.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Os yw'r Holiadur yn cynnwys Adrannau Cysylltiedig Amodol, dim ond os yw'r Cyflenwr wedi dewis yr ymateb sy'n sbarduno'r Adran y caiff ymatebion i'r adrannau hyn a gwblhawyd ar y ffurflen Excel eu mewnforio; mae'r ymateb hwn wedi'i nodi uwchben yr Adran Amodol o Gwestiynau ar y ffurflen Excel.

### Atodi Ffeiliau i Ymateb

Gall y Prynwr ganiatáu i Gyflenwyr atodi ffeiliau i gefnogi'r ymatebion i'r PQQ/ITT.
Gellir atodi Ffeiliau i unrhyw Gwestiwn Atodiad yn yr Amlenni Cymhwyso a Thechnegol. Mae pob Cwestiwn Atodiad yn galluogi'r Cyflenwr i ymateb drwy lanlwytho atodiad ffeil unigol. Gall Cwestiynau Atodiad fod yn orfodol, sy'n golygu bod yn rhaid i Gyflenwr atodi ffeil i Gwestiwn er mwyn cyflwyno ymateb llawn.

Yn ogystal â Chwestiynau Atodiad, gall y Prynwr alluogi Cyflenwyr i atodi nifer o ffeiliau i adran Atodiadau Ychwanegol pob Amlen. Nid yw Cwestiynau Atodiad yn orfodol. Maent yn rhoi'r dewis i Gyflenwyr lanlwytho unrhyw ffeiliau sy'n ofynnol i gefnogi'r ymateb i'r Amlen benodol.
Gan fod yn rhaid agor a gwerthuso pob Amlen ymateb mewn trefn benodol, mae'n bwysig bod Cyflenwyr yn lanlwytho unrhyw Atodiadau Ychwanegol i'r Amlen ymateb gywir. Os caiff ffeiliau eu lanlwytho i'r Amlen anghywir, efallai na fydd y Prynwr yn gallu eu gweld wrth werthuso'r Amlen gywir, ac mae'n bosibl y caiff ymateb y Cyflenwr ei gosbi yn unol â hyn.

### Cyflwyno Ymateb

Er mwyn cyflwyno'r PQQ/ITT, rhaid i Gyflenwr gwblhau'r holl feysydd gorfodol ym mhob Amlen ymateb yn gyntaf.
Rhaid cyflwyno'r ymateb i'r PQQ/ITT i'r Prynwr cyn Dyddiad ac Amser Cau'r PQQ/ITT er mwyn eu cynnwys yng ngwerthusiad y PQQ/ITT.
Mae gofyn i'r Cyflenwr adolygu cynnwys yr ymateb a chadarnhau bod yr ymateb wedi'i gyflwyno i'r Prynwr. Gellir addasu ymateb sydd wedi'i gyflwyno, ond ni ellir ei dynnu'n ôl.
Bydd y Cyflenwr yn cael Rhybudd drwy e-bost yn cadarnhau bod yr ymateb wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus, a chaiff Statws Ymateb y PQQ/ITT ei ddiweddaru er mwyn nodi bod yr ymateb wedi'i gyflwyno.

### Addasu Ymateb a Gyflwynwyd Eisoes

Gellir addasu ymatebion sydd wedi'u cyflwyno ar unrhyw adeg cyn Dyddiad ac Amser Cau'r PQQ/ITT.

## Adroddiad Dadfriffio’r Ymateb

Yn dibynnu ar ffurfwedd y llwyfan, gall Prynwyr ddefnyddio'r adran Adroddiad Dadfriffio'r Ymateb ar ITT, i roi Adroddiad Dadfriffio'r Ymateb i unrhyw Gyflenwyr Aflwyddiannus.

Cynllunnir yr Adroddiad Dadfriffio'r Ymateb er mwyn galluogi Prynwr i rannu gwybodaeth am y penderfyniad Dyfarnu ar ITT, yn unol â Chyfarwyddebau Datrysiadau Caffael Cyhoeddus yr UE.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Ar Agor Bob Amser

## Diffiniad

Mae adrannau penodol sydd â swyddogaethau ar gael bob amser i'r Cyflenwr ar gyfer pob PQQ/ITT:

- Negeseuon: Mae'n galluogi’r Cyflenwyr i gyfathrebu â'r Prynwr yn ystod ac ar ôl proses y PQQ/ITT.
- Hawliau Defnyddiwr: Mae'n galluogi'r Cyflenwr y reoli'r Hawliau Defnyddiwr o ran cael mynediad at y PQQ/ITT.

## Negeseuon

Mae adran Negeseuon ddiogel yn galluogi’r Cyflenwyr i gyfathrebu â'r Prynwr yn ystod ac ar ôl proses y PQQ/ITT. Mae'r adran Negeseuon yn galluogi Cyflenwyr i gysylltu â'r Prynwr yn hawdd gydag unrhyw ymholiadau am y PQQ/ITT, a nodi trywydd archwilio cyflawn yr holl gyfathrebu rhwng y partïon yn ystod y PQQ/ITT.

Mae'r tudalennau Negeseuon a Dderbyniwyd, a Anfonwyd, Drafft ac a Anfonwyd Ymlaen yn dangos yr holl Negeseuon sy'n gysylltiedig â'r PQQ/ITT.

Dim ond drwy'r swyddogaeth Negeseuon y dylid cyfathrebu â'r Prynwr am faterion yn ymwneud â phroses y PQQ/ITT.

Nid negeseuon e-bost yw'r Negeseuon ar y llwyfan, a rhaid i Gyflenwyr fewngofnodi i'r llwyfan yn gyntaf er mwyn darllen ac anfon Negeseuon. Bydd Cyflenwyr yn cael Rhybudd drwy e-bost yn rhoi gwybod iddynt am bob Neges newydd a Dderbynnir.

Hefyd, bydd Cyflenwyr yn cael eu hysbysu am gerrig milltir neu newidiadau pwysig ar y PQQ/ITT drwy Rybudd e-bost.

Caiff Negeseuon PQQ/ITT eu rheoli trwy ddefnyddio'r swyddogaeth Negeseuon safonol.

## Hawliau Defnyddiwr

Mae'r adran Hawliau Defnyddiwr yn rhoi rhestr o holl gyfrifon Defnyddiwr Prynwr ar y llwyfan gyda'r Hawliau Defnyddiwr cyffredinol i "Weld PQQ/ITT" a "Llunio Ymateb".

Gall y Cyflenwr olygu'r rhestr er mwyn roi hawl i bob Defnyddiwr weld y PQQ/ITT cyfredol. Bydd Defnyddwyr sydd â hawl i weld y PQQ/ITT yn cael Rhybudd drwy e-bost, yn gofyn iddynt fewngofnodi i'r llwyfan ac edrych ar y PQQ/ITT.

Caiff Hawliau cyfrifon Defnyddwyr unigol i gyflawni tasgau penodol ar y PQQ/ITT, ac ar wrthrychau eraill ar y llwyfan, eu rheoli o'r adran Rheoli Defnyddwyr.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Arwerthiannau

## Diffiniad

Mae Arwerthiant yn ddigwyddiad cyrchu dynamig lle bydd Cyflenwyr yn gwneud cynigion cystadleuol amser real i'r Prynwr.

Mae Prynwyr yn ffurfweddu Manylion pob Arwerthiant er mwyn nodi Gosodiadau'r Arwerthiant, fel cyfeiriad yr arwerthiant (ymlaen neu am yn ôl), math o Arwerthiant (eitem sengl, aml-eitem neu baramedrig), y rheolau o ran faint o wybodaeth y gall Cyflenwyr ei gweld am gynigion, a'r rheolau ar gyfer terfynu cyfnod gweithredol yr Arwerthiant.

Dylai Cyflenwyr adolygu Manylion yr Arwerthiant, gan gynnwys unrhyw ffeiliau y mae'r Prynwr wedi'u hatodi i'r Arwerthiant. Mae adran Negeseuon ddiogel yn galluogi Prynwyr a Chyflenwyr i gyfathrebu cyn dechrau a gorffen cyfnod gweithredol yr Arwerthiant.

Caiff cyfnod gweithredol yr Arwerthiant ei reoli trwy ddefnyddio rhyngwyneb ar wahân a elwir yn Fonitor yr Arwerthiant.

Ar ôl i gyfnod gweithredol yr Arwerthiant ddod i ben, caiff ei ddyfarnu'n awtomatig i'r cynnig gorau, neu gall y Prynwr werthuso'r cynigion a dderbyniwyd yn swyddogol a defnyddio disgresiwn i ddyfarnu'r Arwerthiant.

Mae'r llwyfan yn darparu amrywiaeth o adroddiadau ar bob Arwerthiant, gan alluogi Prynwyr i ddarparu gwybodaeth dadfriffio i Gyflenwyr ar ffurf canlyniadau cyhoeddedig yr Arwerthiant.

Mae pob Arwerthiant yn cynnwys yr adrannau canlynol, sy'n cyfateb i gamau llif gwaith Arwerthiant nodweddiadol:

- Adolygu Manylion yr Arwerthiant: Mae'n galluogi'r Cyflenwr i adolygu Gosodiadau'r Arwerthiant ac unrhyw Atodiadau gan y Prynwr.
- Monitor yr Arwerthiant: Mae'n galluogi'r Cyflenwr i wneud cynigion yn ystod cyfnod gweithredol yr Arwerthiant.
- Hanes Cynigion: Ar ôl i'r Prynwr ddyfarnu'r Arwerthiant yn swyddogol, bydd y dudalen Hanes Cynigion yn nodi manylion yr holl Gynigion a wnaeth y Cyflenwr yn ystod cyfnod gweithredol yr Arwerthiant.
- Canlyniadau Cyhoeddedig yr Arwerthiant: Mae'n nodi unrhyw ddogfennau sy'n adrodd ar ganlyniad swyddogol yr Arwerthiant sydd wedi'u hatodi gan y Prynwr ac unrhyw Gontractau a ffurfiwyd gyda Sefydliad y Prynwr o ganlyniad i Arwerthiant.
- Arwerthiant Ar Agor Bob Amser: Mae'n galluogi'r Cyflenwr i reoli mynediad i'r Arwerthiant a chyfnewid Negeseuon gyda'r Prynwr.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Gweithgareddau

## Gweld Manylion yr Arwerthiant

Gellir gweld Manylion Arwerthiant drwy glicio ar unrhyw Arwerthiant yn Rhestr yr Arwerthiannau.
Gall Cyflenwyr Chwilio neu Hidlo rhestr yr Arwerthiannau er mwyn gweld Arwerthiant penodol, neu weld is-set o Arwerthiannau ar y rhestr.

Mae'r swyddogaeth Chwilio yn galluogi'r Cyflenwr i ffurfweddu chwiliadau am Arwerthiannau, gan ddefnyddio rhannau o Fanylion yr Arwerthiant neu'r Prosiect sy'n cynnwys yr Arwerthiant fel meini prawf.

Gall Cyflenwyr hefyd hidlo Arwerthiannau yn ôl Statws yr Arwerthiant, ac yn ôl cynnwys unrhyw Wybodaeth Ychwanegol sydd wedi'i chadw am yr Arwerthiant.

## Cynnig mewn Arwerthiant

Gall Cyflenwyr wneud cynnig mewn Arwerthiant drwy ryngwyneb diogel Monitor yr Arwerthiant.
Mae Monitor yr Arwerthiant ar gael unwaith y mae Prynwr wedi cadarnhau Arwerthiant a gellir cael hyd iddo o'r rhestr o Arwerthiannau, ac o'r tudalennau Adolygu Manylion Arwerthiant.

Mae Monitor yr Arwerthiant yn galluogi Cyflenwyr i weld yr Arwerthiant yn ystod y cyfnod gweithredol a gwneud cynigion. Mae Prynwyr yn defnyddio Monitor yr Arwerthiant i weld gweithgarwch Cyflenwyr a monitro'r cynigion a wneir i gyfathrebu â Chyflenwyr yn ystod y cyfnod gweithredol ac i reoli hynt yr Arwerthiant.

# Adolygu Manylion yr Arwerthiant

## Diffiniad

Mae'r adran Manylion yr Arwerthiant yn dangos ffurfwedd yr Arwerthiant yn unol â dewis y Prynwr.

Mae'n bwysig bod Cyflenwyr yn adolygu Manylion yr Arwerthiant gan gynnwys unrhyw Atodiadau Prynwr cyn y caiff yr Arwerthiant ei gadarnhau a chyn dechrau cyfnod gweithredol yr Arwerthiant.

Caiff Manylion yr Arwerthiant eu nodi yn yr adrannau canlynol:

- Gosodiadau: Ffurfwedd yr Arwerthiant yn unol â dewis y Prynwr.
- Atodiadau Prynwr: Ffeiliau y mae'r Prynwr wedi'u hatodi i'r Arwerthiant, at sylw Cyflenwyr.
- Rhestr Eitemau: Eitemau a nodwyd mewn Arwerthiannau aml-Eitem.
- Rhestr Lotiau: Lotiau a nodir mewn Arwerthiant Japaneaidd.
- Rhestr Paramedrau: Paramedrau a nodwyd mewn Arwerthiannau Parametrig.
- Arian Cyfred: Arian Cyfred a nodwyd mew Arwerthiannau aml-Gyfred.

## Gosodiadau

Mae Gosodiadau'r Arwerthiant yn galluogi'r Prynwr i nodi prif wybodaeth yr Arwerthiant a ffurfweddu gweithrediad yr Arwerthiant.

Mae'r dudalen Gosodiadau wedi'i rhannu'n adrannau o wybodaeth gysylltiedig:

- Trosolwg: Mae'n galluogi'r Prynwr i nodi gwybodaeth bwysig fel Teitl a Disgrifiad yr Arwerthiant, a ffurfweddu Cyfeiriad yr Arwerthiant. Mae'r adran Trosolwg hefyd yn galluogi ffurfweddu newidynnau Arwerthiant Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd. Newidynnau Arwerthiant.
- Ffurflen Gwybodaeth Ychwanegol: Mae Ffurflenni Gwybodaeth Ychwanegol yn ddewisol i Sefydliad pob Prynwr. Mae Ffurflenni Gwybodaeth Ychwanegol yn galluogi Sefydliad y Prynwr i gasglu data ar bob Arwerthiant sydd ei angen gan y Sefydliad, ond na chaiff ei gasglu gan Osodiadau'r llwyfan.
- Gwybodaeth am y Dyddiad ac Amser: Mae'n dangos dyddiad ac amser y newid diweddaraf i'r Arwerthiant, ynghyd â'r dyddiad cyhoeddi.
- Gosodiadau Dyddiad ac Amser: Mae'n galluogi'r Prynwr i ddynodi dyddiad ac amser cyfnod gweithredol yr Arwerthiant, ac yn rhoi opsiynau ar gyfer dod â'r cyfnod gweithredol i ben. Mewn grŵp Arwerthiant Aml-lot â Sesiwn a Rennir, mae'n rhaid rheoli Gosodiadau Dyddiad ac Amser Lotiau Arwerthiant unigol o'r Arwerthiant Aml-lot.
- Newidynnau Cynnig: Mae'n galluogi'r Prynwr i ddynodi'r dulliau y gall Cyflenwyr eu defnyddio i wneud Cynnig yn ystod cyfnod gweithredol yr Arwerthiant. Mae Newidynnau Cynnig yn cynnwys Math o

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

Arwerthiant (Eitem sengl, aml-Eitem neu Baramedrig), Arian Cyfred, Pris Sylfaenol a Phris Wrth Gefn, Gostyngiad/Ychwanegiad Cynigion, a p'un a ellir manylu ar unrhyw Rag-gynigion.

- Arddangos: Mae'n galluogi'r Prynwr i reoli'r ffordd y bydd manylion y Cyflenwr a'r Cynnig yn ymddangos i Brynwyr a Chyflenwyr yn ystod cyfnod gweithredol yr Arwerthiant.
- Dyfarnu: Mae'n galluogi'r Prynwr i ddynodi sut y dyfernir yr Arwerthiant, ac yn rhoi opsiynau ar gyfer cynnwys Cyflenwyr yn y broses ddyfarnu.
- Cynigion Anomalaidd: Mae'n galluogi'r Prynwr i ffurfweddu'r Arwerthiant i wrthod Cynigion anomalaidd yn awtomatig.
- Telerau: Mae'n galluogi'r Prynwr i gofnodi unrhyw delerau penodol ar gyfer cynnal yr Arwerthiant.

### Cadarnhau Arwerthiant

Rhaid i'r Prynwr gyhoeddi Arwerthiant er mwyn iddo fod yn weladwy i Gyflenwyr a wahoddir. Mae'r weithred o gyhoeddi'r Arwerthiant yn galluogi Cyflenwyr i weld Manylion yr Arwerthiant gan gynnwys unrhyw Atodiadau gan y Prynwr.

Gall Cyflenwyr weld adran Negeseuon ddiogel yr Arwerthiannau sydd wedi'u cyhoeddi, gan alluogi Prynwyr a Chyflenwyr i drafod Manylion yr Arwerthiant, cyn y caiff yr Arwerthiant ei gadarnhau'n weithredol. Yn ystod cyfnod hwn yr Arwerthiant, gall y Prynwr addasu unrhyw Fanylion a Gosodiadau'r Arwerthiant nad ydynt wedi'u cloi.

Mae'n rhaid i Brynwr gadarnhau Arwerthiant yn ffurfiol cyn y gellir dechrau'r cyfnod gweithredol. Wrth gadarnhau Arwerthiant, bydd holl Fanylion yr Arwerthiant, gan gynnwys unrhyw Osodiadau nad ydynt eisoes wedi'u cloi, yn cael eu cloi.

### Gweld Crynodeb o'r Arwerthiant

Gall Cyflenwyr ddefnyddio nodwedd Sgrîn Argraffu i weld crynodeb un dudalen o Fanylion yr Arwerthiant sydd wedi'i gwblhau.

Mae'r Sgrîn Argraffu yn galluogi Cyflenwyr i gadw Manylion yr Arwerthiant yn hawdd gan gynnwys gwybodaeth am eu cynnig diwethaf a gyflwynwyd er mwyn ei weld all-lein, eu rhannu â chydweithwyr neu eu trosi i PDF a allai gael ei ddefnyddio lle bo angen Cadarnhad â Llofnod Digidol ar Sefydliad y Prynwr o'r cynnig ar ddiwedd yr Arwerthiant.

## Atodiadau Prynwr

Mae'r dudalen Atodiadau Prynwr yn rhoi rhestr o'r holl ffeiliau sydd wedi'u cadw gan y Prynwr ar gyfer yr Arwerthiant.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Dylai Prynwyr ddefnyddio'r dudalen atodiadau i rannu dogfennaeth bwysig sy'n berthnasol i'r Arwerthiant â Chyflenwyr.
Gall Cyflenwyr a Wahoddwyd edrych ar ffeiliau sydd wedi'u hatodi'n unigol, neu ddefnyddio'r swyddogaeth Lawrlwytho ar Raddfa Fawr i lawrlwytho'r holl Atodiadau Prynwr gydag un weithred.

# Rhestr Eitemau

Mae Arwerthiannau Aml-Eitem yn galluogi'r Prynwr i nodi rhestr o Eitemau y caiff Cyflenwyr wneud cynigion yn eu herbyn.
Mae gofyn i Gyflenwyr nodi prisiau yn erbyn yr holl Eitemau yn y rhestr o Eitemau. Caiff gwerthoedd cynigion Cyflenwyr ar bob Eitem unigol eu lluosi gyda Nifer pob Eitem, a chaiff is-gyfansymiau'r Eitemau eu cyfuno i greu Cyfanswm ar gyfer cynnig pob Cyflenwr.

# Rhestr Lotiau

Mewn Arwerthiant Japaneaidd, gall y Prynwr nodi un Lot neu fwy. Dangosir manylion pob un yn yr ardal Rhestr Lotiau. Yn ystod yr Arwerthiant, gwahoddir y Cyflenwyr i Dderbyn neu Wrthod y Swm a Gynigiwyd ar gyfer pob un Lot, a gynigir gan y Prynwr ym mhob Cylch.

# Rhestr Paramedrau

Gellir ffurfweddu math Paramedrig o Arwerthiant ag aml-Baramedrau er mwyn casglu a chyfaddasu Cynigion Cyflenwyr.
Ceir 3 math o Baramedrau Arwerthiannau:

- Pris: Mae'n galluogi'r Prynwr i ddynodi Eitemau Pris i'w cynnwys yn y Rhestr Paramedrau.
- Gwrthbwyso: Mae'n galluogi'r Prynwr i ddynodi gwerth y caiff Paramedrau eraill yn y Rhestr eu haddasu yn ei erbyn er mwyn cyfrifo cyfanswm Cynnig pob Cyflenwr.
- Disgownt: Mae'n rhoi gwerth i'r Cyflenwr ac yn gofyn i'r Cyflenwr nodi cyfradd gostyngiad canrannol er mwyn cyfrifo is-gyfanswm o fewn y Rhestr Paramedrau.

# Arian Cyfred

Mae'r dudalen Arian Cyfred yn rhoi rhestr o Arian Cyfred y gellir ei ddefnyddio mewn Arwerthiant ag Arian Cyfred Lluosog.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Yn ystod cyfnod gweithredol yr Arwerthiant, bydd gan Gyflenwyr yr opsiwn i ddefnyddio unrhyw Arian Cyfred a restrir i wneud cynnig. Mae Monitor yr Arwerthiant yn darparu swyddogaeth trosi Cyfred i Brynwyr a Chyflenwyr, gan drosi gwerthoedd cynigion i brif Arian Cyfred yr Arwerthiant ar sail y cyfraddau cyfnewid sydd wedi'u nodi ar gyfer pob math o Arian Cyfred yn y Rhestr o Arian Cyfred.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

# Monitor yr Arwerthiant

## Diffiniad

Caiff cyfnod gweithredol yr Arwerthiant ei reoli drwy ryngwyneb diogel a elwir yn Fonitor yr Arwerthiant.
Mae Cyflenwyr yn defnyddio Monitor yr Arwerthiant er mwyn cysylltu â'r Arwerthiant gweithredol cyfredol a gwneud cynigion i'r Prynwr.
Mae fersiwn ar wahân o Fonitor yr Arwerthiant yn galluogi Prynwr i weld cysylltedd a gweithgareddau cynnig gan Gyflenwyr yn hawdd, tra'n galluogi'r Prynwr i gyfathrebu â Chyflenwyr cysylltiedig a rheoli'r Arwerthiant.

Bydd Monitor yr Arwerthiant ar gael unwaith y bydd yr Arwerthiant wedi'i gadarnhau a 15 munud cyn i'r Arwerthiant ddechrau, a bydd yn parhau i fod ar gael hyd yn oed ar ôl i’r cyfnod gweithredol ddod i ben. Gall y Prynwr eithrio Cyflenwr o Arwerthiant ar unrhyw adeg. Os bydd hyn yn digwydd tra bydd y Cyflenwr ym Monitor yr Arwerthiant, bydd y Cyflenwr yn cael hysbysiad ar y sgrîn ac ni fydd yn gallu cyflwyno cynigion nac anfon negeseuon mwyach.

Mae Monitor yr Arwerthiant ar gael i Brynwyr a Chyflenwyr mewn fformat Java applet a HTML. Mae gan Fonitor yr Arwerthiant HTML lai o swyddogaethau o'i gymharu â Monitor yr Arwerthiant Java, a dim ond pan nad yw Java ar gael y dylid ei ddefnyddio.

***Noder: Cynghorir unrhyw Gyflenwr sy'n cael trafferth cysylltu â Monitor Arwerthiant yn ystod y cyfnod Gweithredol i gysylltu â'r Ganolfan Gweithrediadau Marchnad ar unwaith. Dylid nodi manylion cyswllt yr MOC yn amlwg ar hafan y llwyfan, neu eu rhoi i'r holl Gyflenwyr cyn yr Arwerthiant.***

## Arwerthiannau

Mae Monitor yr Arwerthiant yn dangos gwybodaeth bwysig am bob Arwerthiant gweithredol, fel yr Amser sy'n Weddill, y Pris Sylfaenol, y Pris Wrth Gefn, Strategaeth Rhestru a'r Gostyngiad/Ychwanegiad Cynnig Lleiaf, gan alluogi Cyflenwyr i ddadansoddi cyfnod gweithredol yr Arwerthiant yn gyflym.

Caiff gweithgareddau cynnig eu crynhoi'n glir i ddangos cynigion Cyflenwyr, a Gradd Cynnig y cynigion o bosibl mewn perthynas â chynigion a wnaed gan Gyflenwyr eraill yn yr Arwerthiant.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Gyda grwpiau o Arwerthiannau Aml-lot, mae Monitor yr Arwerthiant yn rhoi rhestr o'r holl Lotiau Arwerthiant o fewn y grŵp sy'n galluogi'r Cyflenwr i lywio'n gyflym rhwng y Lotiau gweithredol.

Yn dibynnu ar ffurfwedd y llwyfan, gall fod yn ofynnol i Gyflenwyr dderbyn Cytundeb Defnyddiwr penodol cyn defnyddio Monitor yr Arwerthiant.
Yn achos Arwerthiannau o Chwith, unwaith y caiff y Monitor Java ei agor, bydd pedrant dde isaf Monitor yr Arwerthiant yn dangos:

- Ar gyfer Arwerthiannau yn seiliedig ar Lotiau, yr holl wybodaeth am yr amser sydd ar ôl, y cylch a'r Swm a Gynigiwyd, ynghyd ag adran lle gellir gosod unrhyw gynnig posibl;
- Ar gyfer Arwerthiannau ar sail Nifer, mae'r holl wybodaeth uchod ar gael ynghyd â'r Nifer sydd ar ôl, Uchafswm y Cynnig ac Isafswm Nifer y Cynnig ac adran lle gellir gosod unrhyw gynnig posibl ar sail Nifer.

Yn achos Arwerthiannau Japaneaidd, mae pedrannau isaf Monitor yr Arwerthiant Java wedi'u rhannu'n ddau; yn dangos Manylion yr Arwerthiant ar y chwith, gan gynnwys gwybodaeth am y Cylch a'r ardal Negeseuon a'r Ardal Cynnig ar y dde, lle y gall y Cyflenwr weld y Swm a Gynigiwyd ar gyfer pob Lot a gall ddewis Derbyn neu Wrthod y Swm a Gynigiwyd ar gyfer pob Lot yn y Cylch presennol.

### Gweld Arwerthiannau

Gall pob Defnyddiwr ffurfweddu Opsiynau Gweld Arwerthiant penodol er mwyn rheoli'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno o fewn Monitor yr Arwerthiant.
Mae rhan uwch Monitor yr Arwerthiant yn dangos pob Arwerthiant y gall y Cyflenwr gymryd rhan ynddo, ac mae'r pedrannau isaf yn dangos Manylion yr Arwerthiant, Cynigion a Negeseuon.
Gall y Defnyddiwr ddewis colofn y gellir ei chynnwys yn unrhyw un o'r rhestrau o fewn Monitor yr Arwerthiant, a gall drefnu'r rhestrau yn ôl penawdau colofnau unigol, a mwyhau neu leihau maint pob ffrâm yn ôl yr angen.

# Cynigion

Crëir rhestr ar ffurf tabl o holl gynigion y Cyflenwr yn adran Cynigion Monitor yr Arwerthiant, gan alluogi'r Cyflenwr i drefnu'r cynigion yn gyflym yn ôl meini prawf amrywiol fel Gwerth y Cynnig neu Radd y Cynnig.

Mae'r gallu i weld y Cynnig Gorau cyfredol mewn Arwerthiant yn dibynnu ar osodiadau'r Arwerthiant. Er enghraifft, os nad yw'r Arwerthiant yn defnyddio'r gosodiad dall, ac os cyflwynir o leiaf un cynnig, os bydd crëwr yr Arwerthiant wedi ffurfweddu hyn, bydd y wybodaeth hon yn y Pedrant Dde Is.

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

### Cyflwyno Cynigion

***Noder: Mae Cynnig Arwerthiant yn gynnig swyddogol gan y Cyflenwr i ddarparu'r nwyddau neu'r gwasanaeth perthnasol i Sefydliad y Prynwr am werth y Cynnig, ac yn unol â'r telerau a nodwyd gan y Prynwr fel rhan o fanylion yr Arwerthiant, ac mae'r holl Gynigion yn gyfreithiol rwymol o ran y Cyflenwr. Os bydd Cyflenwr yn cyhoeddi gwerth Cynnig anghywir mewn camgymeriad, rhaid i'r Cyflenwr roi gwybod i'r Ganolfan Gweithrediadau Marchnad am unrhyw wallau ar unwaith.***

Rhaid i Gyflenwyr sy'n gwneud Cynigion mewn Arwerthiant barchu'r Newidynnau Cynnig a nodwyd gan y Prynwr ar dudalen Gosodiadau Manylion yr Arwerthiant. Mae Newidynnau Cynnig yn nodi, er enghraifft, Isafswm Lleihad neu Ychwanegiad y Cynnig y mae'n rhaid i Gyflenwyr wella Cynnig blaenorol yn unol ag ef er mwyn gwneud Cynnig dilys.

Caiff unrhyw Gynigion sy'n methu â chydymffurfio â'r Newidynnau Cynnig a nodwyd yng Ngosodiadau'r Arwerthiant eu gwrthod yn awtomatig gan Fonitor yr Arwerthiant.

Gwneir Cynigion mewn Arwerthiant gweithredol drwy nodi Gwerth Cynnig dilys ym maes Cynnig Monitor yr Arwerthiant a chyhoeddi Cynnig i'r Prynwr.

Mewn Arwerthiannau Aml-Eitem, gofynnir i Gyflenwyr nodi Prisiau Uned ar gyfer yr holl Eitemau. Caiff gwerthoedd y Prisiau Uned eu cyfuno er mwyn cyfrifo Gwerth Cyfanswm y Cynnig, a gyhoeddir i'r Prynwr.

Mewn Arwerthiannau Parametrig, gofynnir i Gyflenwyr nodi Cynigion ar gyfer yr holl Baramedrau Pris a Gostyngiad. Caiff gwerthoedd Cynnig y Paramedrau Pris a Gostyngiad eu cyfrifo a'u cyfuno gyda gwerth unrhyw baramedr Gwrthbwyso er mwyn cyfrifo Cyfanswm Gwerth y Cynnig, a gyhoeddir i'r Prynwr.

Mewn Arwerthiannau o Chwith, mae'n ofynnol i Gyflenwyr gyflwyno Cynigion neu Gynigion ar sail Nifer yn unol â'r math o Arwerthiant.

Mewn Arwerthiant Japaneaidd, gall Cyflenwyr dderbyn neu Wrthod gwerth y Cynnig a nodir gan y Prynwr.

# Negeseuon

Mae adran Negeseuon Monitor yr Arwerthiant yn galluogi'r Prynwr i ddangos Negeseuon i'r holl Gyflenwyr sy'n cymryd rhan.

Mewn Arwerthiant Japaneaidd, gall y Cyflenwyr anfon negeseuon at y Prynwr.

Mae adran Negeseuon Monitor yr Arwerthiant yn disodli'r adran Negeseuon ddiogel safonol fel y ffordd gywir o gyfathrebu rhwng Prynwyr a Chyflenwyr yn ystod cyfnod gweithredol yr Arwerthiant.

Caiff Negeseuon eu dangos i Gyflenwyr o fewn Monitor Arwerthiant y Cyflenwr ei hun.

Caiff yr holl Negeseuon a anfonir neu a dderbynnir drwy Fonitor yr Arwerthiant eu cofnodi a'u dangos er mwyn rhoi trywydd archwilio cyflawn o'r cyfathrebu rhwng y partïon yn ystod cyfnod gweithredol yr Arwerthiant.

# Arwerthiant Ar Agor Bob Amser

## Diffiniad

Mae adrannau penodol sydd â swyddogaethau ar gael bob amser i'r Cyflenwr ar gyfer pob Arwerthiant a gyhoeddir.

Mae'r adrannau arwerthiant Ar Agor Bob Amser i Gyflenwyr yn cynnwys:

- Negeseuon: Mae'n galluogi'r Cyflenwr i gyfathrebu â'r Prynwr ac eithrio cyfnod gweithredol yr Arwerthiant.
- Hawliau Defnyddiwr: Mae'n galluogi'r Cyflenwr i reoli Hawliau cydweithwyr i weld yr Arwerthiant.

## Negeseuon

Mae adran Negeseuon yr Arwerthiant yn dangos yr holl Negeseuon sydd wedi'u hanfon gan y Prynwyr a'r Cyflenwyr yn ystod yr Arwerthiant hwnnw.

Mae Negeseuon yn rhoi dull diogel i Brynwyr a Chyflenwyr gyfathrebu cyn ac ar ôl cyfnod gweithredol yr Arwerthiant, a dyma'r unig ddull y dylid ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r Prynwr ynghylch proses yr Arwerthiant.

Mae adroddiadau am negeseuon yn ymwneud â'r Arwerthiant yn rhoi trywydd archwilio llawn i'r Cyflenwr o'r holl gyfathrebu â'r Prynwr yn ystod cylch oes yr Arwerthiant.

Yn ystod cyfnod gweithredol yr Arwerthiant, gall Cyflenwyr gyfathrebu â'r Prynwr drwy adran Negeseuon ar wahân o fewn Monitor yr Arwerthiant.

***Rhybudd:***

***Dim ond drwy Negeseuon Arwerthiant y dylid cyfathrebu â'r Prynwr am broses yr Arwerthiant cyn ac ar ôl y cyfnod gweithredol.***

Bydd derbynnydd pob Neges yn cael Rhybudd drwy e-bost yn rhoi gwybod iddynt eu bod wedi cael Neges newydd am yr Arwerthiant. Mae Rhybudd drwy e-bost yn cynnwys dolen uniongyrchol at y Neges newydd am yr Arwerthiant, ond nid yw'n nodi Teitl na chynnwys y Neges.

Caiff Negeseuon Arwerthiant eu rheoli trwy ddefnyddio'r swyddogaeth Negeseuon safonol.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Hawliau Defnyddiwr

Mae'r adran Hawliau Defnyddiwr Arwerthiant yn galluogi'r Cyflenwr i reoli mynediad ei gydweithwyr o fewn Sefydliad y Cyflenwr i'r Arwerthiant cyfredol.

Caiff Hawliau Defnyddwyr ar yr Arwerthiant eu diffinio gan yr Hawliau a roddwyd i'r cyfrif defnyddiwr ar dudalen Manylion Defnyddiwr y cyfrifon eu hunain.

# Contractau

## Diffiniad

Mae Contractau ar y llwyfan yn galluogi Sefydliad y Prynwr i wneud cofnod ffurfiol pan ddyfernir busnes i Gyflenwr cofrestredig unigol, a elwir yn Brif Gontractwr.

Gall Sefydliad y Prynwr gadw storfa ddiogel o Gontractau a ddyfarnwyd at ddibenion archwilio yn hawdd, gan gofnodi'r holl Fanylion a dogfennaeth bwysig yn ymwneud â'r Contract. Gellir rhannu gwybodaeth yn ymwneud â Chontract yn hawdd o fewn Sefydliad y Prynwr, a gellir ffurfweddu'r modiwl Rheoli Contract fel y gall Prif Gontractwyr weld manylion penodol pob Contract. Gall Sefydliad y Prynwr ffurfweddu Contractau er mwyn cynnwys Prif Gontractwyr wrth negodi gwybodaeth bwysig sy'n gysylltiedig â'r Contract megis Prisio, Meistrddogfen a Gwybodaeth Ychwanegol.

Gall Prynwr greu Contract o fewn prosiect, yn annibynnol ar unrhyw wrthrychau cyrchu eraill. Fel arall, gellir creu Contract o dudalennau dyfarnu ITT neu Arwerthiant, a gall y Contract etifeddu'r Prif Gontractwr, yr Eitemau a'r Prisiau a ddyfarnwyd yn yr ITT/Arwerthiant.

Caiff pob Contract ei neilltuo i Ddefnyddiwr o fewn Sefydliad y Prynwr sy'n gweithredu fel Rheolwr y Contract. Gall Rheolwr y Contract fonitro dyddiadau pwysig yng nghylch oes pob Contract, fel Dyddiadau Dechrau a Gorffen y Contract, a chofnodi diwygiadau cyffredin i'r Contract, fel newidiadau i'r Dyddiad Gorffen neu'r Prisiau y cytunwyd arnynt.

Os yw'r swyddogaeth Perfformiad wedi'i ffurfweddu, bydd y modiwl Rheoli Contract yn galluogi Rheolwr y Contract i fonitro a gwerthuso Perfformiad y Prif Gontractwr ar gyfer pob Contract. Ni all y Prif Gontractwr weld y gwerthusiadau Perfformiad. Gellir ffurfweddu gwerthusiadau o berfformiad fel bod manylion dethol ar gael i'w gweld gan y Prif Gontractwr

Caiff gweithgareddau Rheoli Contract eu hategu gan Rybuddion e-bost penodol ar gyfer pob Contract, y gellir eu ffurfweddu i atgoffa Prynwyr a/neu'r Prif Gontractwr am gerrig milltir pwysig. Gall pob Contract gynnwys Rhybudd penodol yng Ngosodiadau'r Contract i atgoffa Defnyddwyr am Ddyddiad Gorffen y Contract.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Mae adran Negeseuon ddiogel sy'n galluogi Rheolwr y Contract a'r Prif Gontractwr i gyfathrebu ar ôl actifadu'r Contract. Mae Negeseuon Contract yn rhoi trywydd archwilio awtomatig o'r cyfathrebu yn ystod cylch oes y Contract i'r holl bartïon.

Mae cylch oes pob Contract yn dilyn hynt y Contract drwy'r statysau canlynol:

- **Crëwyd**: Y statws rhagosodedig ar gyfer pob Contract newydd. Gall contractau gael eu ffurfweddu i'w negodi â'r Prif Gontractwr o ran Prisio, Meistrddogfen a Gwybodaeth Ychwanegol.
- **Gweithredol:** Mae Contract yn Weithredol ar ôl iddo gael ei actifadu'n ffurfiol gan y Prynwr neu Reolwr y Contract, ac fel arfer bydd yn Weithredol hyd nes y Dyddiad Gorffen. Gall Rheolwr y Contract addasu'r Contract o hyd. Unwaith y caiff Contract ei actifadu, gall y Prif Gontractwr weld Manylion penodol y Contract gan gynnwys unrhyw ffeiliau y mae Sefydliad y Prynwr wedi'u hatodi i'r Contract.
- **Terfynwyd**: Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Rheolwr y Contract Derfynu Contract Gweithredol. Caiff Contract ei Derfynu i ddangos bod y Contract wedi gorffen yn gynnar, er enghraifft oherwydd methiant difrifol ym Mherfformiad y Prif Gontractwr.
- **Wedi dod i ben:** Bydd Contract Gweithredol yn Dod i Ben yn awtomatig ar ôl y Dyddiad Gorffen y gwnaeth y Prynwr ei ffurfweddu. Gall y Prynwr "estyn" contractau sydd Wedi Dod i Ben drwy newid y Dyddiad Gorffen i ddyddiad hwyrach.

Mae pob Contract yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- **Adolygu Manylion Contract:** Mae'n galluogi'r Cyflenwr i weld gwybodaeth bwysig am y Contract, gan gynnwys unrhyw Atodiadau, a Phrisiau ac Isgontractwyr o bosibl, os yw wedi'i ffurfweddu gan y Prynwr. **Os yw'r Contract wedi'i ffurfweddu i'w negodi yma gall Prynwr rannu cynnig â'r Prif Gontractwyr**
- **Contract Ar Agor Bob Amser:** Mae'n galluogi'r Cyflenwr i rannu'r Contract â chydweithwyr ar y llwyfan a chyfnewid Negeseuon gyda'r Prynwr.

# Gweithgareddau

### Gweld Contract

Gellir gweld Manylion Contractau drwy glicio ar unrhyw Gontract yn y rhestr o Gontractau.

Gall Cyflenwyr Chwilio neu Hidlo'r rhestr o Gontractau er mwyn gweld Contractau penodol, neu weld is-set o Gontractau yn y rhestrau.

Mae'r llwyfan yn rhoi Hidlyddion Safonol sy'n galluogi'r Cyflenwr i ganfod yr is-setiau mwyaf cyffredin o Gontractau'n gyflym ac yn hawdd. Mae enghreifftiau o Hidlyddion Safonol yn cynnwys Contractau sy'n Dod i Ben yn Fuan.

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Mae'r swyddogaeth Chwilio yn galluogi'r Cyflenwr i ffurfweddu chwiliadau am Gontractau, gan ddefnyddio rhannau o Fanylion y Contract neu'r Prosiect sy'n cynnwys y Contract fel meini prawf.
Gall Cyflenwyr hefyd hidlo Contractau yn ôl Statws y Contract, ac yn ôl cynnwys unrhyw Wybodaeth Ychwanegol sydd wedi'i chadw am y Contract.

# Adolygu Manylion Contract

## Diffiniad

Unwaith y bydd Contract wedi'i greu, gall y Prynwr neu Reolwr y Contract ffurfweddu Manylion y Contract i'w dangos i'r Prif Gontractwr.
Mae Manylion y Contract yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y Contract a'i ffurfwedd, gan gynnwys Disgrifiad llawn o'r Contract, Dyddiad Gorffen y Contract, a ffeiliau sydd wedi'u hatodi i'r Contract at sylw'r Prif Gontractwr.

Mae rhai Manylion y Contract mor bwysig fel y cânt eu harddangos ar bob tudalen o'r Contract:

- Prosiect: Mae'n dangos Teitl y Prosiect sy'n gysylltiedig â'r Contract.
- Cod a Theitl Contract: Mae'n nodi Cod y Contract, a Theitl ffurfiol y Contract.
- Dyddiad ac Amser Gorffen: Mae'n dangos y Dyddiad a'r Amser pan ddaw'r Contract i ben.
- Statws y Contract: Mae'n dangos statws cyfredol y Contract.

Bydd y Prif Gontractwr yn gallu gweld y Contract ar ôl iddo gael ei actifadu'n ffurfiol gan Sefydliad y Prynwr ac wrth negodi gwybodaeth bwysig megis Prisio, Meistrddogfen a Gwybodaeth Ychwanegol.

Mae'n hollbwysig bod y Prif Gontractwr yn adolygu holl Fanylion y Contract cyn gynted â phosibl yn ystod cylch oes y Contract.

Gall y Prynwr neu Reolwr y Contract barhau i olygu Manylion y Contract, hyd yn oed yn ystod cyfnod gweithredol cylch oes y Contract.
Gellir gweld Manylion y Contract o'r adrannau canlynol:

- Gosodiadau: Mae'n galluogi'r Prynwr i ffurfweddu gweithrediad y Contract
- Is-gontractwyr: (Dewisol, yn dibynnu ar Osodiadau'r Contract): Mae'n galluogi Sefydliad y Prynwr i gofnodi unrhyw Is-gontractwyr i'r Prif Gontractwr
- Atodiadau: Mae'n galluogi Sefydliad y Prynwr i rannu ffeiliau gyda'r Prif Gontractwr
- Gwybodaeth Ychwanegol: (Dewisol, yn dibynnu ar Osodiadau'r Contract): Mae'n galluogi Sefydliad y Prynwr i gofnodi gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'r Contract; gall Sefydliad y prynwr ganiatáu i'r Prif Gontractwr olygu Atodiadau: Mae'n galluogi Sefydliad y Prynwr i rannu ffeiliau gyda'r Prif Gontractwr
- Prisiau: (Dewisol, yn dibynnu ar Osodiadau'r Contract): Mae'n galluogi Sefydliad y Prynwr a'r Prif Gontractwr i weld y Prisiau cyfredol a gymeradwywyd ar gyfer y Contract; gall Sefydliad y Prynwr ganiatáu i'r Prif Gontractwr drafod y Rhestr Brisiau.

- Meistrddogfen (Dewisol, yn dibynnu ar Osodiadau'r Contract): Mae'n galluogi Sefydliad y Prynwr a'r Prif Gontractwr i weld y Feistrddogfen gyfredol a gymeradwywyd ar gyfer y Contract; gall Sefydliad y Prynwr ganiatáu i'r Prif Gontractwr negodi'r Feistrddogfen.

# Gosodiadau

Mae'r dudalen Gosodiadau yn galluogi'r Prynwr i ffurfweddu gweithrediad y Contract a chofnodi gwybodaeth bwysig am y Contract.
Mae adran Trosolwg y dudalen Gosodiadau yn galluogi'r Prynwr i gofnodi gwybodaeth bwysig am y Contract fel y Disgrifiad, y Cod Cyfeirio, Dyddiadau Dechrau a Gorffen, Cyfanswm Gwerth ac Arian Cyfred y Contract.
Gall Prynwyr hefyd ddefnyddio'r dudalen Gosodiadau i gysylltu Categorïau â'r Contract.

### Gweld Crynodeb o'r Contract

Mae swyddogaeth y Sgrîn Argraffu yn rhoi crynodeb ar un dudalen i Gyflenwyr o'r Contract cyfan, gan gynnwys yr holl Osodiadau, Gwybodaeth Ychwanegol, Atodiadau, Isgontractwyr a Phrisiau.
Mae'r Sgrîn Argraffu hefyd yn galluogi'r Prynwr i weld adolygiad llawn o'r Contract, ynghyd ag argraffu neu gadw'r manylion mewn fformat PDF y gellir ei rannu â chydweithwyr.

# Is-gontractwyr

Dim ond os yw wedi'i alluogi yn ardal Trosolwg y dudalen Gosodiadau Contract y bydd y dudalen Is-gontractwyr ar gael.

Mae'r dudalen Is-gontractwyr yn galluogi'r Prynwr i gofnodi pwy yw'r Cyflenwyr Cofrestredig a all fod yn gweithio i'r Prif Gontractwr ym Mherfformiad y Contract.

Fel arfer gall y Prif Gontractwr weld y rhestr o Is-gontractwyr ar ôl actifadu'r Contract.

# Atodiadau

Mae'r ardal Atodiadau yn galluogi'r Prynwr i atodi Ffeiliau sy'n gysylltiedig â'r Contract, i'w rhannu â'r Prif Gontractwr.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

Pan gaiff Contract ei greu o RFQ sydd wedi'i ddyfarnu, gellir copïo Atodiadau ymateb y Cyflenwr buddugol o ran yr RFQ yn awtomatig i ardal Atodiadau'r Contract.

Rheolir Atodiadau drwy ddefnyddio'r [[swyddogaeth Atodiadau safonol]].

## Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r dudalen Gwybodaeth Ychwanegol yn dangos unrhyw feysydd Gwybodaeth Ychwanegol rhagddiffiniedig sy'n gysylltiedig â'r Contract.
Mae meysydd Gwybodaeth Ychwanegol yn rhoi dull hyblyg i Sefydliad y Prynwr gofnodi unrhyw ddata angenrheidiol yn erbyn Contract; gall Sefydliad y Prynwr ganiatáu i'r Prif Gontractwr olygu Gwybodaeth Ychwanegol.

## Prisiau

Dim ond os yw wedi'i alluogi yn adran Trosolwg y dudalen Gosodiadau Contract y bydd yr adran Prisiau ar gael. Mae'r adran Prisiau yn galluogi'r Prynwr i gofnodi gwybodaeth am brisio Eitemau Masnachol unigol o fewn y Contract.

Pan fo Contract wedi'i greu o ITT neu Arwerthiant, gellir copïo'r strwythur Prisiau'n awtomatig o'r ITT/Arwerthiant gwreiddiol wrth greu'r Contract.

Gall Sefydliad y Prynwr ffurfweddu'r Contract er mwyn negodi Prisiau gyda'r Prif Gontractwr; rhag ofn, gofynnir i'r Prif Gontractwr Dderbyn neu Wrthod y Cynnig a anfonir gan y prynwr. Os caniateir hynny, gall y Prif Gontractwr anfon Gwrthgynnig at y Prynwr.

Gellir diwygio prisiau mewn Contract gweithredol gan Sefydliad y Prynwr. Bydd unrhyw newidiadau i'r rhestr Brisiau a gadwyd ar ôl actifadu'r Contract yn creu fersiwn newydd o'r rhestr Brisiau ac, os caiff ei ffurfweddu, efallai y bydd angen negodi o'r newydd.
Caiff fersiynau blaenorol o'r rhestr Brisiau eu cadw at ddibenion archwilio.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

### Gweld Prisiau Contractau

Fel arfer bydd y Prif Gontractwr yn gallu gweld Prisiau ar Gontract wrth negodi neu ar ôl actifadu'r Contract.
Caiff y rhestr Brisiau ei rhannu'n Adrannau o Eitemau Pris cysylltiedig. Mae pob Eitem Pris yn cynnwys Uned Fesur, Nifer a Phris Uned, a gaiff eu cyfuno i nodi Cyfanswm y Pris.

Mae'r rhestr Brisiau hefyd yn nodi Cyfanswm y Pris ar gyfer pob Adran, a'r holl Adrannau Contract wedi'u cyfuno.
Gall Sefydliad y Prynwr newid Pris pob Eitem Pris unigol dros amser â chytundeb y Prif Gontractwr. Mae pob newid i'r rhestr Brisiau'n creu Fersiwn newydd o'r rhestr Brisiau'n awtomatig.

Gall y Prif Gontractwr barhau i weld yr holl restrau Prisiau Blaenorol yn ystod ac ar ôl cylch oes y Contract. Mae pob Fersiwn yn cynnwys Dyddiad y Daw'r Newid yn Weithredol, sy'n nodi'r pwynt pan fydd y Prisiau newydd yn weithredol.

Mae'r ardal Brisiau yn rhoi gwybodaeth bwysig am y rhestr Brisiau megis Fersiwn Cynnig y Rhestr Brisiau, statws Fersiwn y Rhestr Brisiau, pryd y cafodd fersiwn y Rhestr Brisiau ei chyflwyno, ei haddasu a'i chymeradwyo a'r Cynnig a'r Sylw Cymeradwyo.

# Meistrddogfen

Mae ardal y Feistrddogfen yn caniatáu i'r Prynwr reoli a chofnodi gwybodaeth am Feistrddogfen y Contract.

Gall Sefydliad y Prynwr ffurfweddu'r Contractau er mwyn negodi'r Feistrddogfen gyda'r Prif Gontractwr; yn yr achos hwn, gofynnir i'r Prif Gontractwr Dderbyn neu Wrthod y Cynnig a anfonir gan y prynwr. Os caniateir hynny, gall y Prif Gontractwr anfon Gwrthgynnig at y Prynwr.

### Gweld Meistrddogfen

Fel arfer, bydd y Prif Gontractwr yn gallu gweld Meistrddogfen y Contract wrth negodi neu ar ôl actifadu'r Contract.

Gall y Prif Gontractwr lawrlwytho'r Feistrddogfen a gweld gwybodaeth bwysig megis statws y Feistrddogfen, pryd y cafodd y Feistrddogfen ei lanlwytho, ei chyflwyno a'i chymeradwyo a'r Cynnig a'r Sylw.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

# Contract Ar Agor Bob Amser

## Diffiniad

Mae adrannau penodol sydd â swyddogaethau ar gael bob amser i'r Cyflenwr ar gyfer pob Contract:
- Negeseuon: Mae'n galluogi'r Cyflenwyr i gyfathrebu â'r Prynwr yn ystod ac ar ôl cylch oes y Contract.
- Hawliau Defnyddiwr: Mae'n galluogi'r Cyflenwr y reoli'r Hawliau Defnyddiwr o ran cael mynediad at y Contract.

## Negeseuon

Mae adran Negeseuon ddiogel yn galluogi'r Cyflenwyr i gyfathrebu â'r Prynwr yn ystod ac ar ôl cylch oes y Contract.

Mae'r adran Negeseuon yn galluogi Cyflenwyr i gysylltu â'r Prynwr yn hawdd gydag unrhyw ymholiadau am y Contract, a nodi trywydd archwilio cyflawn yr holl gyfathrebu rhwng y partïon yn ystod cylch oes y Contract.

Mae'r tudalennau Negeseuon a Dderbyniwyd, a Anfonwyd, Drafft ac a Anfonwyd Ymlaen yn dangos yr holl Negeseuon sy'n gysylltiedig â'r Contract.

Dim ond drwy'r swyddogaeth Negeseuon y dylid cyfathrebu â'r Prynwr am faterion yn ymwneud â chylch oes y Contract.

Nid negeseuon e-bost yw'r Negeseuon ar y llwyfan, a rhaid i Gyflenwyr fewngofnodi i'r llwyfan yn gyntaf er mwyn darllen ac anfon Negeseuon. Bydd Cyflenwyr yn cael Rhybudd drwy e-bost yn rhoi gwybod iddynt am bob Neges newydd a Dderbynnir.

Rheolir Negeseuon Contract trwy ddefnyddio'r swyddogaeth Negeseuon safonol.

## Hawliau Defnyddiwr

Mae'r adran Hawliau Defnyddiwr yn rhoi rhestr o holl gyfrifon Defnyddiwr Prynwr ar y llwyfan gyda'r Hawl Defnyddiwr gyffredinol i "Weld Contractau".

Gall Cyflenwr olygu'r rhestr er mwyn roi hawl i bob Defnyddiwr weld y Contract cyfredol. Bydd Defnyddwyr sydd â hawl i weld y Contract yn cael Rhybudd drwy e-bost, yn gofyn iddynt fewngofnodi i'r llwyfan ac edrych ar y Contract.

Caiff Hawliau cyfrifon Defnyddwyr unigol i gyflawni tasgau penodol ar y Contract, ac ar wrthrychau eraill ar y llwyfan, eu rheoli o'r adran Rheoli Defnyddwyr.

# Modiwl Cyfleoedd a Gyhoeddwyd

Mae'r modiwl Cyfleoedd yn caniatáu i Sefydliadau Cyflenwyr cofrestredig a darpar Sefydliadau Cyflenwyr bori drwy restr o Gyfleoedd a gyhoeddwyd gan Sefydliad y Prynwr, a mynegi eu diddordeb mewn unrhyw PQQs/ITTs sydd ar Agor i Bob Cyflenwr o fewn Prosiect penodol.

Cyfleoedd a Gyhoeddwyd

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Cyfleoedd a Gyhoeddwyd

## Diffiniad

Mae'r modiwl Cyfleoedd a Gyhoeddwyd yn galluogi Sefydliad y Cyflenwr i weld gwybodaeth a dogfennau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â Phrosiect er mwyn penderfynu p'un a fydd yn cymryd rhan ai peidio.
Os bydd Sefydliad y Prynwr wedi dewis cyhoeddi Cyfle, caiff ei ddangos ar dudalennau hafan cyhoeddus y llwyfan ac, i ddefnyddwyr sydd wedi mewngofnodi, yn y modiwl Cyfleoedd a Gyhoeddwyd.

O fewn cynnwys cyfle, gellir cael gwybodaeth safonol fel disgrifiad o'r Cyfle, y Terfyn Amser Rhestru, a manylion ychwanegol sy'n gysylltiedig â Chategori Gwaith a Llwybr Caffael y Prosiect.

Caiff Cyfleoedd a Gyhoeddwyd eu dangos yn y rhestrau canlynol:

- Cyfleoedd Presennol: Mae'n dangos Cyfleoedd lle nad yw'r Terfyn Amser Rhestru wedi'i gyrraedd eto.
- Cyfleoedd a Aeth Heibio: Mae'n dangos Cyfleoedd lle mae'r Terfyn Amser Rhestru yn y gorffennol.

Gall pob un o'r Ceisiadau a Gyhoeddwyd gynnwys yr adrannau canlynol:

- Manylion y Prosiect
- Manylion y Cyfle
- Manylion y Prynwr
- Lotiau a Gyhoeddwyd
- Atodiadau'r Cyfle

## Manylion y Prosiect

Mae pob Cyfle yn gysylltiedig â Phrosiect penodol, ac yn cynnwys Manylion y Prosiect, fel Cod y Prosiect a Theitl y Prosiect, y Math o Brosiect, ynghyd â gwybodaeth am Gategori'r Prosiect.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

# Manylion y Cyfle

Mae Manylion y Cyfle yn cynnwys y Disgrifiad a'r Terfyn Amser Rhestru ac, os yw wedi'i ffurfweddu, gwybodaeth am y Llwybr Caffael, y Categori Gwaith a Manylion y Contract. Gall rhagor o wybodaeth fod ar gael, yn ôl y Math o Gyfle a ddewisir gan Sefydliad y Prynwr, sy'n dangos meysydd Gwybodaeth Ychwanegol cysylltiedig sydd wedi'u trefnu'n adrannau.

# Manylion y Prynwr

Mae adran Manylion Sefydliad y Prynwr yn dangos gwybodaeth am Sefydliad y Prynwr sydd wedi Cyhoeddi'r Cyfle, gan gynnwys Enw'r Sefydliad, cyfeiriad e-bost y Prynwr a dolen opsiynol.

# Lotiau a Gyhoeddwyd

Mae'r adran Lotiau a Gyhoeddwyd yn dangos rhestr o unrhyw PQQs/ITTs sydd ar Agor i Bob Cyflenwr sy'n gysylltiedig â'r Cyfle hwnnw.

Gall Cyflenwyr weld Crynodeb o bob PQQ/ITT, a phenderfynu p'un a fydd yn gwneud Datganiad o Ddiddordeb ai peidio.

Hysbysiadau a Gyhoeddwyd

Mae'n dangos pob Hysbysiad a gyhoeddwyd o fewn yr un Prosiect â'r Cyfle.

# Atodiadau'r Cyfle

Gall Cyfle a Gyhoeddwyd gynnwys atodiadau ffeil, sy'n gysylltiedig â'r Cyfle hwnnw, sydd ar gael i Gyflenwyr eu lawrlwytho.

# Gweithgareddau

## Gweld Cyfleoedd a Gyhoeddwyd

Mae gan Sefydliad y Cyflenwr ffyrdd gwahanol o weld Cyfle a Gyhoeddwyd:

- Drwy gael Hysbysiad e-bost yn cadarnhau bod Cyfle newydd wedi'i gyhoeddi neu bod un sy'n bodoli eisoes wedi'i ddiwygio; bydd yr Hysbysiad hwn yn caniatáu mynediad uniongyrchol i'r Cyfle drwy hyperddolen;
- Unwaith y bydd wedi mewngofnodi, drwy fynd i'r Brif Dudalen yn yr ardal Cyfleoedd a gyhoeddwyd, lle mae Cyfleoedd Presennol a Chyfleoedd a Aeth Heibio ar gael ar unwaith;
- Unwaith y bydd wedi mewngofnodi ac wedi dewis adran y Prosiect, gan fynd i'r adran Manylion y Prosiect, a dilyn unrhyw ddolenni Negeseuon Rhybudd cysylltiedig, gan ei gwneud yn bosibl gwneud Datganiad o

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Ddiddordeb mewn un PQQ/ITT neu fwy sydd ar Agor i Bob Cyflenwr sydd wedi'i gynnwys yn y Prosiect. Yn yr achos hwn, gall Cyflenwr weld Manylion y Cyfle ac unrhyw Hysbysiad cysylltiedig, drwy glicio ar y botwm "Gweld y Cyfleoedd a Gyhoeddwyd".

### Chwilio am Gyfleoedd

Gall Defnyddwyr chwilio am Gyfle a Gyhoeddwyd yn ôl meini prawf gwahanol, gan gyfeirio at feysydd Prosiect penodol neu drwy Lwybr Caffael neu Gategori Gwaith penodol os ydynt wedi'u ffurfweddu, neu drwy unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd wedi'i chynnwys yn y Prosiect. Gellir allforio canlyniadau'r chwiliad mewn fformat MS Excel hefyd.

# Modiwl Proffil Defnyddwyr a Sefydliad

Mae'r modiwl Proffil Defnyddwyr a Sefydliad yn galluogi Sefydliad y Cyflenwr i reoli ei Broffil ar y llwyfan, a chreu a rheoli cyfrifon Defnyddwyr ar gyfer Defnyddwyr o fewn y Sefydliad. Gall Sefydliad y Cyflenwr hefyd weld Gwerthusiadau a gynhaliwyd gan Sefydliad y Prynwr yn ymwneud â hwy ac ymateb i Arolygon i Gyflenwyr yn yr ardal Cardiau Sgorio.

Gall Defnyddwyr Unigol reoli Manylion eu cyfrifon eu hunain, a dewis eu Cyfrinair eu hunain.

- Proffil
  - Data Cofrestru
  - Proffiliau Sylfaenol ac Estynedig
  - Cwestiynau
- Rheoli Defnyddwyr
  - Defnyddwyr
  - Rolau
  - Is-adrannau
- Categorïau
- Cardiau Sgorio
  - Arolygon sy'n Mynd Rhagddynt
  - Cardiau Sgorio Cymhwyso
  - Cardiau Sgorio Menter
  - Cardiau Sgorio Contract

# Proffil

## Diffiniad

Mae'r modiwl Proffil yn galluogi Sefydliad y Cyflenwr i reoli Manylion y Sefydliad a gedwir ar y llwyfan, ac mae'n galluogi unrhyw Ddefnyddwyr unigol o fewn y Sefydliad i reoli eu Manylion Defnyddiwr eu hunain.

Os caiff Rheoli Gwerthwyr ei ffurfweddu ar y llwyfan, gall Sefydliad y Prynwr ofyn i'r Cyflenwyr ddarparu ymatebion i gyfres o Gwestiynau Proffil, a gesglir drwy Ffurflenni Proffil Sylfaenol ac Estynedig.

Gofynnir i Gyflenwyr ymateb i'r holl Gwestiynau gorfodol yn y Proffiliau Sylfaenol ac Estynedig, ac adolygu a diweddaru eu hymatebion yn rheolaidd er mwyn eu cadw'n gyfredol.

Mae Cwestiynau Proffil yn galluogi Sefydliad y Prynwr i ddysgu mwy am gymuned y Cyflenwyr sydd wedi'u cofrestru ar y llwyfan. Gellir defnyddio'r un Cwestiynau Proffil mewn PQQs/ITTs, gydag ymatebion Cyflenwyr i'r PQQ/ITT yn cael eu cyflwyno o'r ymatebion a gaiff eu rhoi yn y Ffurflenni Proffil Sylfaenol ac Estynedig.

Mae'r adran Proffil yn galluogi Defnyddwyr awdurdodedig i reoli'r tudalennau canlynol:

- Crynodeb o'r Statws: Mae'r dudalen Crynodeb o'r Statws yn galluogi Cyflenwr i weld a yw'r holl Gwestiynau Proffil gorfodol wedi'u hateb yn hawdd.
- Data Cofrestru: Mae'n galluogi Sefydliad y Cyflenwr, a Defnyddwyr unigol, i weld a rheoli ei gyfrif ar y llwyfan.
- Proffiliau Sylfaenol ac Estynedig: Mae Proffiliau Sylfaenol ac Estynedig yn galluogi Cyflenwr i ymateb i Gwestiynau Proffil a drefnir yn Ffurflenni strwythuredig.
- Cwestiynau: Mae rhestr gyflawn o'r holl Gwestiynau proffil, gan gynnwys manylion ymateb y Cyflenwr presennol, yn galluogi'r Cyflenwr i gadarnhau'r ymateb cyfredol i unrhyw Gwestiwn yn gyflym.

***Noder:***

***Gall Cyflenwyr weld ac argraffu eu Proffiliau Cyflenwyr, neu eu hallforio i PDF, yn hawdd ar unrhyw adeg. Mae'r Proffil Cyflenwr cyflawn yn cynnwys yr hoff wybodaeth a gofnodir yn y tudalennau Proffil.***

## Gweithgareddau

### Rheoli Data Proffil

Os caiff Rheoli Gwerthwyr ei ffurfweddu ar y llwyfan, gofynnir i Sefydliadau'r Cyflenwyr roi eu hymatebion i Gwestiynau Proffil Sylfaenol ac Estynedig, a sicrhau bob eu hymatebion yn gyfredol bob amser.

Hyd yn oed os na chaiff Rheoli Gwerthwyr ei ffurfweddu ar y llwyfan, mae'n hanfodol bod holl Sefydliadau'r Cyflenwyr yn cadw eu data eu hunain ar y llwyfan ac yn ei gadw'n gyfredol.

Mae'r dudalen Manylion Defnyddiwr yn galluogi pob Defnyddiwr unigol i ddiweddaru ei fanylion cyswllt yn ôl yr angen.
Caiff pob neges e-bost o'r llwyfan ei hanfon i'r Cyfeiriad E-bost cyswllt a nodwyd ar y dudalen Manylion Defnyddiwr.
At hynny, efallai y bydd angen i'r Ganolfan Gweithrediadau Marchnad ddefnyddio'r wybodaeth ar y dudalen Manylion Defnyddiwr i gysylltu â Defnyddiwr yn ystod ymarfer caffael.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Gall pob Defnyddiwr nodi Iaith a Pharth Amser dewisol ar y llwyfan. Mae'r llwyfan yn defnyddio'r wybodaeth hon i reoli ym mha Iaith y bydd tudalennau'n ymddangos i'r Defnyddiwr, ac i reoli'r Dyddiad a'r Amser sy'n ymddangos i'r Defnyddiwr ar dudalennau ac mewn rhybuddion e-bost.

***Noder:***

***Gofynnir i Ddefnyddwyr beidio â chofrestru fwy nag unwaith ar y llwyfan.***

***Gellir creu cyfrifon Defnyddwyr Ychwanegol yn yr adran Rheoli Defnyddwyr os oes angen.***

# Data Cofrestru

## Diffiniad

Mae'r dudalen Data Cofrestru yn galluogi Sefydliad i reoli Manylion y Sefydliad a gedwir ar y llwyfan, ac mae'n galluogi unrhyw Ddefnyddwyr unigol o fewn y Sefydliad i reoli eu Manylion Defnyddiwr eu hunain.

## Manylion y Sefydliad

Manylion y Sefydliad yw manylion Sefydliad a roddwyd yn wreiddiol yn ystod y broses Gofrestru. Mae Manylion Sefydliad yn cynnwys Enw Cyfreithiol y Sefydliad, manylion cyswllt, Statws Cyfreithiol, TAW a Chodau Fiscal.
Dim ond y Defnyddiwr a greodd gyfrif y Sefydliad ar y llwyfan yn wreiddiol (a elwir yn Uwch Ddefnyddiwr) neu Ddefnyddwyr a ddirprwywyd yn benodol gan yr Uwch Ddefnyddiwr all weld Manylion y Sefydliad.
Gall Uwch Ddefnyddiwr reoli Manylion y Sefydliad ar y llwyfan, gan sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol bob amser.

## Manylion Defnyddiwr

Manylion Defnyddiwr yw manylion pob Defnyddiwr unigol o fewn y Sefydliad.
Mae Manylion Defnyddiwr yn cynnwys gwybodaeth ddiogelwch fel Enw Defnyddiwr a Chyfrinair unigryw'r cyfrif a ddefnyddir i gael mynediad i'r llwyfan, gwybodaeth gyswllt fel enw cyswllt, cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn y Defnyddiwr, a gosodiadau llwyfan fel Is-adran a Rôl y Defnyddiwr yn y Sefydliad, ac Iaith a Pharth Amser dewisol y Defnyddiwr.

Mae'r dudalen Manylion Defnyddiwr yn galluogi pob Defnyddiwr unigol i weld a rheoli gwybodaeth bwysig am eu cyfrif Defnyddiwr ar y llwyfan.

### Newid Cyfrinair

Mae'n hanfodol bod pob Defnyddiwr yn cynnal diogelwch ei gyfrifon ei hun ar y llwyfan.
Gellir defnyddio cyfrifon defnyddwyr ar y llwyfan i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyrchu ac i lunio contractau cyfreithiol gyda Sefydliad y Prynwr.
Bydd gofyn i Ddefnyddiwr newid ei gyfrinair yn rheolaidd er mwyn cynnal diogelwch pob cyfrif Defnyddiwr ar y llwyfan.

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Gellir newid y Cyfrinair ar gyfer pob cyfrif Defnyddiwr unrhyw bryd ar y dudalen Newid Cyfrinair yn yr adran Manylion Defnyddiwr.
Gall y cyfnodau rhwng yr adegau pan fydd yn rhaid newid Cyfrinair amrywio o lwyfan i lwyfan.
Bob tro y caiff Cyfrinair ei newid, bydd y Llwyfan yn anfon e-bost yn cadarnhau hynny at y cyfeiriad e-bost cyswllt a nodwyd ar y dudalen Manylion Defnyddiwr.

Os bydd unrhyw Ddefnyddiwr yn cael e-bost yn cadarnhau bod ei Gyfrinair wedi newid, ond nad yw'r Defnyddiwr yn cofio newid y Cyfrinair, mae'n bosibl y bydd diogelwch cyfrif y Defnyddiwr yn y fantol.

***Noder:***
***Dylid cysylltu â'r Ganolfan Gweithrediadau Marchnad ar unwaith os credir bod diogelwch unrhyw gyfrif yn y fantol.***

Yn ogystal ag Enw Defnyddiwr a Chyfrinair, mae pob cyfrif Defnyddiwr yn cynnwys cwestiwn ac ateb Dilysu.
Mae'r cwestiwn ac ateb Dilysu yn galluogi'r Ganolfan Gweithrediadau Marchnad i ddilysu pwy yw unrhyw Ddefnyddiwr sy'n cysylltu â hwy, drwy ofyn i'r Defnyddiwr roi'r ateb cywir i'r cwestiwn Dilysu.

# Proffiliau Sylfaenol ac Estynedig

## Diffiniad

Os caiff Rheoli Gwerthwyr ei ffurfweddu ar y llwyfan, gellir cyflwyno Ffurflenni Proffil i Gyflenwyr yn ystod neu ar ôl y broses Gofrestru.

Mae'r ardal Ffurflenni yn cynnwys Cwestiynau a bennwyd gan Sefydliad y Prynwr er mwyn casglu gwybodaeth sylfaenol a mwy helaeth am Sefydliad y Cyflenwr. Yn ardal Proffil y Cyflenwr, caiff pob cyfres o Ffurflenni ei harddangos mewn ardal benodedig sy'n cyflwyno rhestr o Ffurflenni ynghyd â data ynghylch statws cwblhau Cwestiynau ar y Ffurflen, gwybodaeth am Ddyddiad Dod i Ben a phryd y cafodd y Ffurflen ei haddasu ddiwethaf. Rhestrir y Ffurflenni yn y drefn y cânt eu cyflwyno i'r Cyflenwr ond gellir eu gweld mewn unrhyw drefn o'r rhestrau hyn ac mae'n hawdd symud rhwng y ffurflen o fewn unrhyw Ffurflen.

## Proffil Sylfaenol

Proffil Sylfaenol Cyflenwr yw'r enw a roddir i'r set o Ffurflenni a gyflwynir i Sefydliad y Cyflenwr yn ystod y broses Gofrestru.

Yn gyffredinol, bydd Prynwyr yn defnyddio'r Proffil Sylfaenol i gasglu Data Cyflenwr hanfodol na chaiff ei gwmpasu gan y Data Cofrestru.

## Proffil Estynedig

Proffil Estynedig Cyflenwr yw'r enw a roddir i'r set o Ffurflenni a gyflwynir i Sefydliad y Cyflenwr ar ôl y broses Gofrestru.

Yn gyffredinol, bydd Prynwyr yn defnyddio'r Proffil Estynedig i gasglu Data Cyflenwr at ddibenion Cyn Cymhwyso.

### Rheoli Ymatebion Proffil Estynedig

Er mwyn cwblhau'r Proffil Estynedig, dylai'r Cyflenwr nodi ymateb ar gyfer pob Cwestiwn gorfodol (a nodir â seren goch) ar unrhyw adeg ar ôl y broses gofrestru.

Rhaid rhoi ymatebion i Gwestiynau Proffil Estynedig drwy ymateb i'r Ffurflenni Proffil Estynedig.

Gellir gweld manylion yr holl Gwestiynau ac ymatebion o'r Ffurflenni Proffil Estynedig o'r dudalen Cwestiynau.

# Cwestiynau

## Diffiniad

Os caiff Rheoli Gwerthwyr ei ffurfweddu ar y llwyfan, gellir cyflwyno Cwestiynau Proffil i Gyflenwyr naill ai yn ystod y broses Gofrestru neu mewn ffurflenni sy'n benodol ar gyfer Categori, neu eu cynnwys mewn Holiaduron PQQ/ITT.

Gall pob Cwestiwn Proffil ymddangos mewn sawl Ffurflen neu PQQ/ITT gwahanol. Fodd bynnag, dim ond un ymateb a gadarnhawyd y gall Sefydliad y Cyflenwr ei roi i bob Cwestiwn ar unrhyw adeg.

Os bydd Cyflenwr yn rhoi ymatebion gwahanol i Gwestiwn, er enghraifft rhwng y Proffil Sylfaenol a Holiadur PQQ/ITT, yr ymateb diweddaraf y gall y Prynwr ei weld fydd yn cael blaenoriaeth. Felly er enghraifft, os bydd Sefydliad yn ymateb i Gwestiwn yn y proffil Sylfaenol wrth Gofrestru, ond yna'n cyflwyno ymateb mwy diweddar ar PQQ/ITT dilynol, yr ymateb i'r PQQ/ITT fydd yn cael blaenoriaeth ac yn cael ei gopïo yn y Proffil Sylfaenol. Defnyddir yr ymateb mwyaf diweddar yn y Proffil pan gaiff ei "gadarnhau". Yn achos ymatebion a ddarperir ar PQQs/ITTs, caiff yr ymateb ei gadarnhau wrth i'r Prynwr edrych arno.

Mae'r dudalen Cwestiynau yn rhoi rhestr o'r holl Gwestiynau y mae Sefydliad y Cyflenwr wedi'u gweld.
Mae'n bosibl chwilio am Gwestiynau yn ôl Ffurflen lle nodir, yn ôl Math (e.e. Rhifol, Dyddiad, Ie/Na), yn ôl Teitl a'r Dyddiad yr Addaswyd Ddiwethaf.

### Chwilio am Gwestiynau

Mae'r dudalen Cwestiynau yn rhoi rhestr o'r holl Gwestiynau y mae Sefydliad y Cyflenwr wedi'u gweld.
Mae'n bosibl chwilio am Gwestiynau yn ôl y manylion yn y rhestr o Gwestiynau, ac yn ôl y Ffurflen lle caiff ei nodi.

Mae'r rhestr o Gwestiynau'n nodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob cwestiwn:

- Label: Teitl y Cwestiwn fel y nodir gan y Prynwr.
- Math: Math o Gwestiwn (h.y. fformat ymateb, er enghraifft: Dyddiad, Atodiad; Ie/Na; Rhestr Opsiynau; Rhestr Opsiynau Amlddewis; Rhifol; Testun).
- Dyddiad yr Addaswyd Ddiwethaf: Y Dyddiad a'r Amser pan ymatebodd Sefydliad y Cyflenwr i'r Cwestiwn diwethaf.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

- Dyddiad Cadarnhau Ddiwethaf: Y Dyddiad a'r Amser pan gadwyd yr ymateb diweddaraf i'r Cwestiwn ym Mhroffil y Cyflenwr.
- Cadarnhawyd Yn: Yr adran o'r llwyfan lle gwnaeth Sefydliad y Cyflenwr ymateb i'r Cwestiwn diwethaf (e.e. Proffil Sylfaenol, Ffurflen Categori, PQQ/ITT).
- Ymateb: Ymateb cyfredol Sefydliad y Cyflenwr i'r Cwestiwn.

### Gweld Ymatebion i Gwestiynau

Gellir gweld pob Cwestiwn unigol ar dudalen Manylion Cwestiwn ar wahân.
Mae'r dudalen Manylion Cwestiwn yn nodi gwybodaeth am y Cwestiwn, ac am Ymateb cyfredol Sefydliad y Cyflenwr i'r Cwestiwn.

Mae'r dudalen yn galluogi Sefydliad y Cyflenwr i weld yr ymateb presennol i'r Cwestiwn, cadarnhau pwy yw'r Defnyddiwr a roddodd yr ymateb diwethaf, a'r adran o'r llwyfan lle rhoddwyd yr ymateb.
Mae'r dudalen hefyd yn galluogi Sefydliad y Cyflenwr i nodi'r Ffurflenni Proffil Sylfaenol ac Estynedig, a'r Ffurflenni Categori, ble mae'r Cwestiwn yn ymddangos.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

# Rheoli Defnyddwyr

## Diffiniad

Mae'r adran Rheoli Defnyddwyr yn galluogi Uwch Ddefnyddiwr i greu a rheoli hierarchaeth o gyfrifon Defnyddwyr ar y llwyfan.

Mae cyfrifon Defnyddwyr yn galluogi Uwch Ddefnyddiwr i rannu mynediad i'r llwyfan gydag unigolion eraill yn eu Sefydliad, ac i reoli Hawliau'r Defnyddwyr hynny o ran gwneud tasgau penodol.

Mae Rolau'n galluogi'r Uwch Ddefnyddiwr i ffurfweddu Hawliau Defnyddwyr ar y llwyfan, gan olygu mai dim ond y tasgau penodol sydd wedi'u pennu i'r Rôl honno y bydd yr holl gyfrifon Defnyddwyr â'r Rôl honno yn gallu eu cyflawni. Gall pob Rôl fod yn benodol ar gyfer Is-adran, neu gall holl Is-adrannau'r Sefydliad ei "Rhannu". Gellir newid Hawliau cyfrif Defnyddiwr unigol i fod yn wahanol i Hawliau'r Rôl benodedig, a gellir eu newid yn ddiweddarach i gyd-fynd â Hawliau'r Rôl benodedig.

Mae Is-adrannau'n golygu y gellir ail-greu strwythur Sefydliad yn gywir o fewn y llwyfan. Gellir neilltuo cyfrifon Defnyddwyr i Is-adrannau, ac felly gellir rheoli gwelededd gweithgareddau ar y llwyfan gan Is-adrannau, a gellir cyflwyno adroddiadau ar weithgareddau ar y llwyfan fesul Is-adran. Mae'n rhaid i bob Is-adran gynnwys Rheolwr yr Is-adran.

Mae'r adran Rheoli Defnyddwyr yn galluogi Defnyddwyr awdurdodedig i reoli'r gwrthrychau canlynol:

- Defnyddwyr
- Rolau
- Is-adrannau
- Defnyddiwr Rhagosodedig: Mae'n galluogi'r Uwch Ddefnyddiwr i enwebu cyfrifon Defnyddwyr penodol i dderbyn yr holl rybuddion e-bost sy'n gysylltiedig â'r PQQs/ITTs a'r Arwerthiannau y mae'r Sefydliad wedi cael gwahoddiad iddynt.

## Gweithgareddau

### Creu Defnyddiwr

Gall unrhyw Ddefnyddiwr sydd â Hawl i Osod a Rheoli Defnyddiwr greu Defnyddiwr o'r rhestr Defnyddwyr.
Er mwyn creu cyfrif Defnyddiwr newydd bydd angen cwblhau'r dudalen Manylion Defnyddiwr.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Mae'n rhaid i'r Defnyddiwr sy'n creu'r cyfrif newydd nodi'r cyfeiriad e-bost cyswllt cywir ar gyfer y Defnyddiwr newydd, dewis Enw Defnyddiwr unigryw, a phennu Is-adran a Rôl os oes angen.

Os na chaiff rôl ei phennu, dylai'r crëwr ffurfweddu Hawliau Defnyddiwr y Defnyddiwr newydd ei hun fel y gall y cyfrif newydd wneud unrhyw dasgau ar y llwyfan.

Bydd pob cyfrif Defnyddiwr newydd yn cael e-bost yn cadarnhau ac yn dilysu Enw Defnyddiwr a Chyfrinair y cyfrif. Bydd y llwyfan yn anfon rhybuddion drwy e-bost i'r cyfeiriad e-bost cyswllt sydd wedi'i nodi ar y dudalen Manylion Defnyddiwr.

## Creu Rôl

Gall unrhyw Ddefnyddiwr sydd â Hawl i Osod a Rheoli Defnyddiwr greu Rôl o'r rhestr o Rolau.

Dylid rhoi Teitl i bob rôl, a gellir nodi bod pob Is-adran yn ei "Rhannu".

Er mwyn i gyfrifon Defnyddwyr sydd â Rôl benodol wneud y tasgau angenrheidiol, mae'n rhaid i grëwr y Rôl bennu'r Hawliau Defnyddiwr angenrheidiol ar gyfer pob modiwl o fewn y llwyfan i'r Rôl.

Bydd unrhyw gyfrif Defnyddiwr sy'n cael y Rôl benodol wedi hynny yn etifeddu'r un Hawliau Defnyddiwr.

## Creu Is-adran

Gall unrhyw Ddefnyddiwr sydd â Hawl i Osod a Rheoli Defnyddiwr greu Is-adran o'r rhestr o Is-adrannau.

Rhaid i bob Is-adran gael Enw, ac mae'n rhaid nodi cyfrif Defnyddiwr i weithredu fel Rheolwr yr Is-adran.

# Defnyddwyr

## Diffiniad

Cyfrif yw Defnyddiwr sydd wedi'i greu gan Uwch Ddefnyddiwr o fewn Sefydliad.

Mae cyfrifon Defnyddwyr yn galluogi Uwch Ddefnyddiwr i rannu mynediad i'r llwyfan gydag unigolion eraill yn eu Sefydliad, ac i reoli Hawliau Defnyddwyr yr unigolion hynny o ran gwneud tasgau penodol.

Mae'r rhestr Defnyddwyr yn galluogi Uwch Ddefnyddiwr (neu unrhyw Ddefnyddiwr y dirprwywyd â Hawliau Gosod a Rheoli Defnyddiwr iddo) i weld a rheoli cyfrifon Defnyddiwr sy'n bodoli ar y llwyfan.

Rheolir pob cyfrif Defnyddiwr o'r adrannau canlynol:

- Manylion Defnyddiwr
- Hawliau Defnyddiwr

## Manylion Defnyddiwr

Mae'r dudalen Manylion Defnyddiwr yn dangos y wybodaeth a ddefnyddiwyd i greu'r cyfrif Defnyddiwr penodol. Mae Manylion Defnyddiwr yn cynnwys Enw Cyntaf a Chyfenw'r Defnyddiwr, manylion cyswllt, Enw Defnyddiwr unigryw a gallai gynnwys Is-adran a Rôl.

### Rheoli Manylion Defnyddiwr

Gall yr Uwch Ddefnyddiwr, neu unrhyw Ddefnyddiwr arall sydd â Hawliau Gosod a Rheoli Defnyddiwr, ddiwygio'r wybodaeth ar y dudalen Manylion Defnyddiwr.

Gall Newidiadau i Is-adran y Defnyddiwr effeithio ar ba wrthrychau y gall y Defnyddiwr eu gweld, yn dibynnu ar lefel welededd yr Is-adran. Efallai y bydd angen pennu Rôl newydd i'r Defnyddiwr wrth newid Is-adran, pan fo'r Rôl bresennol yn unigryw i'r Is-adran wreiddiol.
Gall Newidiadau i Rôl Defnyddiwr effeithio ar ba wrthrychau sy'n bodoli y gall y Defnyddiwr eu gweld, a Hawliau'r Defnyddiwr ar wrthrychau sy'n bodoli.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

Gall Defnyddwyr unigol weld eu Manylion Defnyddiwr ar y tudalennau Proffil, a diweddaru rhannau penodol fel eu gwybodaeth gyswllt a'u dewisiadau o ran Iaith a Pharth Amser.

# Hawliau Defnyddiwr

Mae'r dudalen Hawliau Defnyddiwr yn nodi'r Hawliau sydd wedi'u pennu ar gyfer cyfrif y Defnyddiwr ar y llwyfan. Caiff Hawliau eu nodi fesul gwrthrych (er enghraifft PQQ/ITT, Arwerthiant, Contract) a fesul modiwl.
Mae'n bosibl y bydd yr Hawliau Defnyddiwr sydd wedi'u pennu ar gyfer Defnyddiwr unigol ar gyfer gwrthrych penodol yn wahanol i'r Hawliau sydd wedi'u nodi ar y dudalen Hawliau Defnyddiwr. Caiff gwrthrychau sy'n wahanol i'r Hawliau a nodwyd ar y dudalen Hawliau Defnyddiwr eu nodi ar y tudalennau Dilysu.

Diffinnir pob Hawl Defnyddiwr gan y gosodiadau canlynol:

| Gosodiad | Diffiniad |
|---|---|
| **Na** | Nid oes gan y Defnyddiwr yr Hawl. |
| **Ie** | Mae gan y Defnyddiwr yr Hawl yn yr holl wrthrychau. |
| **Ie (Fy un i)** | Mae gan y Defnyddiwr yr Hawl yn yr holl wrthrychau sydd wedi'u neilltuo iddynt. |

### Rheoli Hawliau Defnyddiwr

Mae'r dudalen Hawliau Defnyddiwr yn galluogi Uwch Ddefnyddiwr, neu unrhyw Ddefnyddiwr penodedig arall sydd â Hawliau Gosod a Rheoli Defnyddiwr, i bennu Hawliau i'r Defnyddiwr wneud tasgau penodol ar y llwyfan.
Caiff Hawliau Defnyddiwr eu pennu drwy olygu'r dudalen Hawliau Defnyddiwr er mwyn dewis y gosodiad angenrheidiol ar gyfer pob Hawl.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

# Rolau

## Diffiniad

Set o Hawliau Defnyddiwr sydd wedi'u cadw ar lwyfan yw Rôl.
Mae Rolau'n galluogi Uwch Ddefnyddiwr i bennu'r Hawliau Defnyddiwr addas ar gyfer cyfrifon Defnyddwyr yn gyflym ac yn hawdd, yn ôl swyddogaeth y Defnyddiwr o fewn y Sefydliad.

Gall pob Rôl fod yn benodol ar gyfer Is-adran, neu gall holl Is-adrannau'r Sefydliad ei "Rhannu".
Bydd cyfrifon Defnyddwyr sy'n cael Rôl benodol yn etifeddu'r Hawliau Defnyddiwr sy'n gysylltiedig â'r Rôl honno'n awtomatig.
Bydd newidiadau i Hawliau Defnyddiwr y Rôl yn berthnasol yn awtomatig i'r holl Ddefnyddwyr sydd â'r Rôl honno, sy'n galluogi'r Uwch Ddefnyddiwr i wneud newidiadau cyflym i Hawliau Defnyddiwr ym mhob rhan o'r Sefydliad.

Gellir newid Hawliau cyfrifon Defnyddwyr unigol i fod yn wahanol i'r Hawliau sydd wedi'u pennu ar gyfer y Rôl benodol.
Rheolir pob Rôl o'r adrannau canlynol:

- Hawliau Defnyddiwr
- Dilysu

## Hawliau Defnyddiwr

Mae'r dudalen Hawliau Defnyddiwr y Rôl yn gweithio yn yr un ffordd â'r dudalen Hawliau Defnyddiwr.
Caiff Hawliau eu cyflwyno yn ôl gwrthrych a modiwl, a chânt eu diffinio drwy ddewis o amrywiaeth o osodiadau sydd ar gael ar gyfer pob Hawl.

### Rheoli Hawliau Defnyddiwr y Rôl

Os oes Rôl wedi'i phennu i Ddefnyddiwr ar y dudalen Manylion Defnyddiwr, bydd y Defnyddiwr yn etifeddu Hawliau Defnyddiwr y Rôl honno. Yna gall yr Uwch Ddefnyddiwr addasu Hawliau Defnyddiwr yr unigolyn, fel eu bod yn wahanol i'r rheini sydd wedi'u pennu ar gyfer y Rôl. Yn yr achos hwn, bydd <> yn ymddangos yng ngholofn y Rôl ar restr y Defnyddiwr ar gyfer y Defnyddiwr penodol.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Bydd unrhyw addasiadau i Hawliau Defnyddiwr sy'n gysylltiedig â Rôl yn berthnasol i'r holl Ddefnyddwyr sydd â'r Rôl honno, a byddant yn achosi i unrhyw wyriadau o Hawliau Defnyddiwr y Rôl gael eu dileu ar y dudalen Hawliau Defnyddiwr.

# Dilysu

Mae'r adran Dilysu Rôl yn rhoi rhestr o'r holl amrywiaethau posibl i Hawliau Defnyddiwr unigol ar gyfer cyfrifon â'r Rôl bresennol. Mae'r tudalennau Dilysu'n galluogi Uwch Ddefnyddiwr i nodi'n hawdd sefyllfaoedd lle y gallai fod angen Rôl wahanol ar gyfrifon Defnyddwyr unigol.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Is-adrannau

## Diffiniad

Grŵp o gyfrifon Defnyddwyr o fewn Sefydliad ar y llwyfan yw Is-adran.

Mae'n rhaid i bob cyfrif Defnyddiwr ar y llwyfan fod yn gysylltiedig ag Is-adran. Caiff Is-adran o'r enw "Is-adran" ei chreu drwy ragosodiad, a chaiff pob cyfrif Defnyddiwr newydd ei ychwanegu at yr Is-adran hon hyd nes y caiff ei chysylltu ag Is-adran arall.
Mae'n rhaid i bob Is-adran gynnwys Rheolwr yr Is-adran.

Gall Is-adran gynnwys Rolau unigryw, sy'n galluogi i dasgau ar y llwyfan gael eu dyrannu'n wahanol yn ôl yr Is-adran o fewn y Sefydliad.

At hynny, gellir rheoli faint o Is-adran y gall Defnyddwyr o Is-adrannau eraill ei weld, gan olygu mai dim ond y Prosiectau sy'n berthnasol i'w gweithgareddau eu hunain y bydd Defnyddwyr mewn Is-adran yn eu gweld.

Mae'r adran Is-adrannau yn galluogi Uwch Ddefnyddiwr i greu, gweld a rheoli'r holl Is-adrannau o fewn y Sefydliad.

Rheolir pob Is-adran o'r adrannau canlynol:

- Manylion yr Isadran
- Defnyddwyr
- Gwelededd
- Adrannau
- Dilysu

## Manylion yr Is-adran

Mae'r dudalen Manylion yr Is-adran yn galluogi'r Uwch Ddefnyddiwr i reoli Enw'r Is-adran a phenodi Rheolwr yr Is-adran.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Defnyddwyr yr Is-adran

Mae'r dudalen Defnyddwyr Is-adran yn rhoi rhestr o'r holl gyfrifon Defnyddwyr sy'n gysylltiedig â'r Is-adran bresennol, gan gynnwys y Rôl sydd wedi'i phennu i bob Defnyddiwr.

## Gweladedd yr Is-adran

Mae'r dudalen Gweladedd Is-adran yn galluogi Uwch Ddefnyddwyr i reoli o Ddefnyddwyr a Phrosiectau yn yr Is-adran bresennol faint y gall Defnyddwyr o Is-adrannau eraill yn y sefydliad ei weld.
Mae Gweladedd Is-adran yn ddefnyddiol o ran sicrhau mai dim ond y Prosiectau sy'n uniongyrchol berthnasol i'w gweithgareddau eu hunain y gall Defnyddwyr eu gweld, ac o ran atal Defnyddwyr rhag gweld Prosiectau sensitif.

## Adrannau

Uned o fewn Is-adran yw Adran. Gellir cysylltu Defnyddwyr mewn Is-adran ag Adran o'r dudalen Manylion Defnyddiwr.

## Dilysu

Mae'r dudalen Dilysu'n rhoi rhestr o Ddefnyddwyr sydd ag unrhyw Hawliau Defnyddiwr sy'n ychwanegol at Hawliau Rheolwr yr Is-adran, gan alluogi Rheolwr yr Is-adran neu'r Uwch Ddefnyddiwr i sicrhau bod pob Defnyddiwr o fewn Is-adran yn gweithredu y tu hwnt i gyfrifoldeb Rheolwr yr Is-adran.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Categorïau

## Diffiniad

Dim ond Defnyddwyr â statws Uwch Ddefnyddiwr s'n gallu defnyddio'r adran Categorïau, sy'n rhoi rhestr o'r Categorïau cynnyrch sy'n gysylltiedig â Sefydliad y Cyflenwr. Os caiff Rheoli Gwerthwyr ei actifadu ar lwyfan, gall y Prynwr ofyn i bob Cyflenwr gwblhau Ffurflenni o Gwestiynau Proffil sy'n gysylltiedig â phob Categori.

Dylai pob Sefydliad y Cyflenwr ddatgan pa Gategorïau y gall eu cyflenwi i'r Prynwr, a chwblhau unrhyw Ffurflenni Categori perthnasol.

Mae'r data Categori a nodir yn yr adran hon yn ei gwneud yn bosibl i Sefydliad y Cyflenwr gael ei ddewis i'w wahodd i Brosiectau cyrchu yn y dyfodol.

## Coeden Categorïau

Mae'r Goeden Categorïau yn cynrychioli hierarchaeth y mathau gwahanol o nwyddau a gwasanaethau y mae Sefydliad y Prynwr yn eu cyrchu.

Mae'r adran Categorïau yn galluogi Sefydliad y Cyflenwr i ddewis a chynnal rhestr o Gategorïau ac Isgategorïau.

Gall Prynwyr hefyd ofyn i Gyflenwr gwblhau Ffurflen ar gyfer darparu gwybodaeth ychwanegol yn benodol am bob Categori a ddewiswyd.

Caiff nwyddau a gwasanaethau eu trefnu yn lefelau amrywiol o Gategorïau ac Isgategorïau.

## Categorïau Presennol

Mae'r dudalen Categorïau Presennol yn rhoi rhestr o'r holl Gategorïau cyflenwi a ddewiswyd gan Sefydliad y Cyflenwr.

## Gweithgareddau

### Dewis Categorïau Cyflenwi

Gall Cyflenwyr ddewis categorïau cyflenwir drwy chwilio a phori'r Goeden Categorïau. Gall Cyflenwyr ddewis unrhyw "ddeilen" ar y Goeden Categorïau, er mwyn cynnig eu hunain i'r Prynwr fel Cyflenwr posibl yn y Categori hwnnw.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

### Rheoli Categorïau Cyflenwi

Rhestrir y categorïau a ddewiswyd ar y dudalen Categorïau Presennol. Gall Cyflenwyr edrych ar bob Categori Presennol er mwyn adolygu Ffurflen y Categori (os oes un) neu ddileu'r categori a ddewiswyd o'u Proffil.

### Cwblhau Ffurflenni Categori

Mae Ffurflenni Categori'n cynnwys Cwestiynau Proffil sy'n gysylltiedig yn benodol â chategori cyflenwi.

Bydd Cyflenwyr yn derbyn Ffurflenni Categori'n awtomatig wrth ddewis categorïau newydd o'r Goeden Categorïau.

Nodir statws cwblhau pob Ffurflen categori (os yw'n bresennol) yn y rhestr o Gategorïau Presennol. Gall Cyflenwyr edrych ar bob Categori Presennol er mwyn addasu ymatebion i Ffurflen y Categori.

Gellir gweld ymatebion i Gwestiynau Ffurflenni Categori o'r dudalen Cwestiynau, sy'n rhestru'r holl Gwestiynau Proffil a gyflwynwyd i Sefydliad y Cyflenwr.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

# Cardiau Sgorio

## Diffiniad

Os caiff y broses o Reoli Cydberthnasau'r Gwerthwr ei ffurfweddu ar y llwyfan, gall Defnyddwyr sy'n Gyflenwyr gael mynediad i'r ardal Cardiau Sgorio.
Mae'r ardal Cardiau Sgorio yn rhoi cyfle i Sefydliad y Cyflenwr weld y Gwerthusiadau wedi'u cwblhau y mae Sefydliad y Prynwr wedi'u cynnal ar ei berfformiad cyffredinol a'i berfformiad mewn Cofnodion Cymhwyso a Chontractau.
Yn yr ardal hon, efallai y gofynnir i'r Cyflenwr gymryd rhan yn y broses Werthuso hefyd drwy ofyn iddo gwblhau Arolwg i Gyflenwyr er mwyn rhoi ymatebion cyfredol i ddata a ddefnyddir gan Sefydliad y Prynwr mewn Gwerthusiad Cerdyn Sgorio.

## Arolygon sy'n Mynd Rhagddynt

Ffurflen a roddir gan Sefydliad y Prynwr i'r Cyflenwr yw arolwg. Mae'n nodi Cwestiynau a gaiff eu defnyddio mewn Gwerthusiad Cerdyn Sgorio.  Mae'r Arolwg yn galluogi'r Cyflenwr i roi unrhyw ddata sydd ar goll, diweddaru ymatebion a roddwyd yn flaenorol mewn gweithgareddau llwyfan neu gadarnhau'r data a ddelir ar gyfer y Cwestiynau.  Pan gaiff Arolwg ei anfon at Gyflenwr, caiff ei hysbysu drwy Hysbysiad.  Gall mynediad i Ddefnyddwyr unigol yn y Sefydliad gael ei reoli â Hawliau Defnyddiwr penodol.

## Cardiau Sgorio Cymhwyso

Mae'r rhestr Cardiau Sgorio Cymhwyso yn galluogi'r Cyflenwr i weld Gwerthusiadau wedi'u cwblhau gan Sefydliad y Prynwr yn seiliedig ar Gofnodion Cymhwyso a grëwyd yn ymwneud â gweithgareddau Dosbarthu'r Cyflenwr ar y llwyfan.  Mae Cerdyn Sgorio Cymhwyso yn dangos manylion am y Gwerthusiadau diwethaf a blaenorol, gan gynnwys y Ffurflen a ddefnyddiwyd i gynnal y Gwerthusiad. Ar y Ffurflen, caiff Perfformiad y Cyflenwr ei asesu yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) a gaiff eu sgorio er mwyn rhoi Cyfanswm Sgôr fesul Gwerthusiad.

## Cardiau Sgorio Menter

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Mae ardal y Cerdyn Sgorio Menter yn galluogi'r Cyflenwr i weld Gwerthusiadau wedi'u cwblhau gan Sefydliad y Prynwr yn seiliedig ar berfformiad cyffredinol Sefydliad y Cyflenwr mewn gweithgareddau cyrchu ar y llwyfan. Mae'r Cerdyn Sgorio Menter yn dangos manylion am y Gwerthusiadau diwethaf a blaenorol, gan gynnwys y Ffurflen a ddefnyddiwyd i gynnal y Gwerthusiad. Ar y Ffurflen, caiff Perfformiad cyffredinol y Cyflenwr ei asesu yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) a gaiff eu sgorio er mwyn rhoi Cyfanswm Sgôr fesul Gwerthusiad.

# Cardiau Sgorio Contract

Mae'r ardal Cardiau Sgorio Contract yn galluogi'r Cyflenwr i weld Gwerthusiadau wedi'u cwblhau gan Sefydliad y Prynwr yn seiliedig ar Gontractau unigol a ddyfernir i'r Cyflenwr. Mae Cerdyn Sgorio Contract yn dangos manylion am y Gwerthusiadau diwethaf a blaenorol, gan gynnwys y Ffurflen a ddefnyddiwyd i gynnal y Gwerthusiad. Ar y Ffurflen, caiff Perfformiad cyffredinol y Cyflenwr ei asesu yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) a gaiff eu sgorio er mwyn rhoi Cyfanswm Sgôr fesul Gwerthusiad.

# Modiwl Rhannu Ffeiliau

Mae'r modiwl Rhannu Ffeiliau yn galluogi Prynwyr a Chyflenwyr i rannu ffeiliau mewn ffordd strwythuredig a diogel.


- Cyfeiriaduron
  - Ffeiliau a Ffolderi'r Cyfeiriadur
  - Gosodiadau'r Cyfeiriadur
  - Nodweddion y Ffolder
  - Nodweddion y Ffeil


(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

# Cyfeiriaduron

## Diffiniad

Mae Cyfeiriaduron Rhannu Ffeiliau yn galluogi Sefydliad y Prynwr i rannu system strwythuredig o Ffolderi a Ffeiliau o fewn y Sefydliad, gyda Sefydliadau Prynwr eraill, a chyda Chyflenwyr cofrestredig.

Mae'n bosibl y caiff Prynwyr a Chyflenwyr unigol fynediad i bob Cyfeiriadur yn unol â Gosodiadau'r Cyfeiriadur, gyda Pherchennog y Cyfeiriadur yn rheoli Hawliau Defnyddiwr penodol.

Mae Rhannu Ffeiliau yn cynnig peiriant chwilio pwerus ar gyfer dod o hyd i Ffeil neu Ffolder benodol yn ôl meini prawf lluosog, gan alluogi Defnyddwyr i ddod o hyd i unrhyw Ffeil neu Ffolder o fewn strwythur y Cyfeiriadur.

Mae Cyfeiriaduron yn cynnig nodweddion rheoli Ffolderi a Ffeiliau megis lanlwytho Ffeiliau, copïo a gludo Ffolderi a Ffeiliau a dileu Ffolderi a Ffeiliau.

Mae rheoli fersiwn Ffeil, gydag adnodd mewngofnodi ac allgofnodi Ffeiliau, yn ei gwneud yn bosibl i reoli newidiadau ar bob Ffeil yn gydweithredol a'u holrheinio dros amser. Mae Cyfeiriaduron hefyd yn hwyluso'r gwaith o reoli Ffeiliau'n gydweithredol drwy ddarparu swyddogaeth Negeseuon diogel ar lefel Ffeil.

Caiff gweithgareddau cyffredinol o fewn Cyfeiriaduron eu cyfyngu gan Hawliau Defnyddiwr, a gallant gynnwys y gallu i:

- Bori'r rhestr o Gyfeiriaduron, a rheoli Ffolderi a Ffeiliau;
- Chwilio o fewn Cyfeiriaduron gan ddefnyddio meini prawf lluosog, gyda'r posibilrwydd o allforio manylion neu lawrlwytho cynnwys y Cyfeiriadur;
- Monitro Ffeiliau drwy edrych ar Fersiynau blaenorol o Ffeil.

Gellir rheoli Rhannu Ffeiliau o'r adrannau canlynol ar bob Cyfeiriadur:

- Ffeiliau a Ffolderi'r Cyfeiriadur
- Gosodiadau'r Cyfeiriadur
- Nodweddion y Ffolder
- Nodweddion y Ffeil

# Gweithgareddau

## Chwilio Drwy Gynnwys y Cyfeiriadur

Gall Defnyddwyr sy'n chwilio am Ffeil neu Ffolder benodol chwilio drwy gynnwys Cyfeiriadur drwy ddefnyddio'r adran Chwilio.

Gellir chwilio yn ôl meini prawf gwahanol:

- y Cyfeiriadur
- math o Ffolder, ar ôl dewis Cyfeiriadur penodol.
- Testun sy'n gysylltiedig ag Enw, Disgrifiad a Sylwadau'r Ffeil ar gyfer y fersiwn diwethaf
- Sefydliad, Defnyddiwr, Perchennog y Cyfeiriadur (crëwyd gan, diwygiwyd gan)
- Dyddiad (e.e. dyddiad diwygio diwethaf, dyddiad allgofnodi)
- Statws y Ffeil

Caiff yr holl Ffeiliau a Ffolderi sy'n cyfateb i'r meini prawf chwilio eu rhestru ar dudalen sydd hefyd yn rhoi'r llwybr lle lleolir Ffeiliau/Ffolderi, ac mae'n cysylltu'n uniongyrchol â'r rhestr berthnasol o Ffeiliau/Ffolderi.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

# Ffeiliau a Ffolderi'r Cyfeiriadur

## Diffiniad

Mae rhestr o Ffolderi a Ffeiliau'r Cyfeiriadur yn rhoi holl gynnwys pob Cyfeiriadur.
Mae'r rhestr yn cynnwys yr holl Ffolderi a Ffeiliau, gan nodi gwybodaeth fel nifer y Ffeiliau ym mhob Ffeil, Disgrifiad o'r Ffolder/Ffeil, y dyddiad diwygio diwethaf, Maint, statws y Ffeil a dolen i Nodweddion y Ffolder/Ffeil.
Wrth fynd i wraidd y rhestr o Ffolderi a Ffeiliau, gellir gweld a rheoli pob Ffolder a Ffeil yn unol â'r Gosodiadau Cyfeiriadur penodol.

Mae'r opsiynau canlynol ar gael ar gyfer pob rhestr o Ffolderi a Ffeiliau:

- Lanlwytho Ffeil newydd neu fersiwn newydd o Ffeil
- Creu Ffolder newydd neu ei ychwanegu o fewn Ffolderi sy'n bodoli eisoes
- Copïo pob Ffolder a Ffeil

Gall Defnyddiwr chwilio a hidlo cynnwys Cyfeiriadur, Lawrlwytho cynnwys y Cyfeiriadur ar Raddfa Fawr, neu allforio manylion o'r cynnwys mewn fformat MS Excel.

## Gweithgareddau

### Gweld Ffolderi a Ffeiliau

Gellir gweld cynnwys Ffolder yn hawdd drwy fynd i wraidd pob Cyfeiriadur er mwyn pori trwy'r cynnwys a'i adolygu.
Caiff y llwybr at leoliad presennol y Defnyddwyr yn strwythur y Cyfeiriadur ei ddangos bob amser, gan alluogi Defnyddwyr i symud yn hawdd drwy strwythur Ffolder y Cyfeiriadur.
Fel arall, gall Defnyddiwr Chwilio drwy gynnwys unrhyw Gyfeiriadur.

### Atodi Ffeiliau

Gall Defnyddiwr atodi Ffeil newydd at Ffolder drwy bori a dewis Ffeil (neu sawl Ffeil) i'w lanlwytho o'u cyfrifiadur.
Caiff Ffeiliau atodedig eu cadw mewn statws Ar Gael drwy ragosodiad, gan ei gwneud yn bosibl i gydweithwyr olygu Ffeiliau sydd wedi'u lanlwytho ar unwaith.
Maint mwyaf posibl ffeil ar y llwyfan yw 50Mb, ac argymhellir na ddylai atodiad sydd i'w rannu fod yn fwy na 2Mb.
Gellir rheoli Ffeiliau Atodedig drwy olygu Nodweddion unigol y Ffeil.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Creu Ffolderi

Gall Defnyddiwr ychwanegu Ffolderi newydd at wraidd y Cyfeiriadur a/neu ychwanegu Ffolderi newydd o fewn Ffolderi presennol y Cyfeiriadur.

Mae'r broses o greu Ffolder yn dilyn rheolau Rheoli Math o Ffolder y Cyfeiriadur:

- Os yw'r Defnyddiwr yn creu Ffolder newydd mewn Cyfeiriadur lle nad yw'r adnodd Rheoli Math o Ffolder yn weithredol, nid oes angen dewis Math o Ffolder;
- Os yw Defnyddiwr yn creu Ffolder newydd mewn Cyfeiriadur lle mae'r adnodd Rheoli Math o Ffolder yn weithredol, mae dau bosibilrwydd yn ôl y Math o Ffolder a ddewiswyd:
- Os yw'r Defnyddiwr yn creu Ffolder newydd ac yn dewis "heb ei gategoreiddio" fel y Math o Ffolder ar gyfer pob is-Ffolder a grëwyd o fewn y Ffolder hwnnw, mae'r Math am ddim.
- Os yw'r Defnyddiwr yn creu Ffolder newydd ac yn dewis unrhyw beth oni bai am "heb ei gategoreiddio" fel Math o Ffolder ar gyfer pob is-Ffolder newydd a grëwyd o fewn y Ffolder hwnnw, nid yw'n bosibl dewis y Math hwnnw am ei fod wedi'i boblogi gyda gosodiad y Ffolder rhiant.

## Copïo Ffolderi a Ffeiliau

Mae'r weithred o Gopïo yn galluogi Defnyddiwr i ddyblygu'r holl Gyfeiriadur, gan gopïo ei strwythur a/neu Ffolderi a Ffeiliau unigol, rhwng Cyfeiriaduron gwahanol neu rhwng adrannau gwahanol o'r llwyfan. Er enghraifft, gall Gyflenwr gopïo Ffolder a Gludo'r Ffolder mewn Cyfeiriadur arall ar y llwyfan.

Mae'r weithred Gludo yn galluogi'r Defnyddiwr i benderfynu pa gynnwys sydd wedi'i gopïo y dylid ei ludo i mewn i'r gyrchfan. Mae'n rhaid i Ddefnyddiwr nodi p'un a ydynt yn dymuno:

- Gludo strwythur y Ffolder sydd wedi'i gopïo'n unig,
- Gludo'r holl Ffeiliau o'r Ffolder sydd wedi'i gopïo,
- Gludo strwythur y Ffolder sydd wedi'i gopïo a'r holl Ffeiliau o'r Ffolder sydd wedi'i gopïo.

# Gosodiadau'r Cyfeiriadur

## Diffiniad

Mae'r Gosodiadau Cyfeiriadur yn galluogi'r Prynwr i reoli ymddygiad cynnwys y Cyfeiriadur a galluogi Prynwyr a Chyflenwyr i ddefnyddio cynnwys y Cyfeiriadur.

Gellir rheoli Gosodiadau Cyfeiriadur o'r adrannau canlynol:

- Gosodiadau: Mae'n galluogi'r Prynwr i reoli ymddygiad cynnwys y Cyfeiriadur, a nodi os gall Prynwyr a/neu Gyflenwyr ddefnyddio'r Cyfeiriadur.

## Gosodiadau

Caiff Gosodiadau Cyfeiriadur eu diffinio gan Berchennog y Cyfeiriadur ac maent yn nodi pa nodweddion sydd wedi'u galluogi ar y Cyfeiriadur, a sut y dylai'r nodweddion hynny ymddwyn.
Mae Gosodiadau Cyfeiriadur Penodol yn cynnwys y canlynol:

- Galluogi Negeseuon Ffeiliau: Mae'n galluogi Defnyddwyr sydd wedi'u gwahodd i Gyfeiriadur penodol reoli Negeseuon sy'n ymwneud ag un neu fwy o Ffeiliau sy'n perthyn i'r Cyfeiriadur hwnnw.
- Galluogi Rheoli Fersiwn Ffeil: Mae'n ei gwneud yn bosibl i olrhain pob fersiwn o Ffeil sydd wedi'i gadw. Mae rheolaeth fersiwn Ffeil yn galluogi Defnyddwyr sydd â Hawliau digonol i weld fersiynau blaenorol. Os yw'r adnodd rheoli fersiwn Ffeil yn weithredol, mae Nodweddion Ffeil (Prynwr) pob Ffeil yn cynnwys Adran Fersiwn Ffeil Blaenorol ar gyfer gweld a rheoli'r holl fersiynau o'r Ffeil sydd wedi'u cadw'n flaenorol.
- Galluogi Rheoli Cymeradwyaeth Ffeiliau: Mae'n galluogi rheoli llif gwaith Cymeradwyo Ffeiliau gan gynnwys yr opsiwn i ddewis a chreu Rhestr Cymeradwyaeth a rheoli statws Cymeradwyaeth Ffeiliau.
- Galluogi Rheoli Math o Ffolder: Mae'n galluogi Perchenogion Cyfeiriaduron i strwythuro cynnwys Cyfeiriadur gan ddefnyddio math gwahanol o Ffolderi sy'n gysylltiedig â Hawliau Defnyddiwr Prynwr a Chyflenwr penodol.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Nodweddion y Ffolder

## Diffiniad

Mae'r dudalen Nodweddion Ffolder yn rhoi crynodeb o bob Ffolder yn y Cyfeiriadur, gan gynnwys gwybodaeth am y Math o Ffolder (os caiff ei ffurfweddu), Cyfanswm Maint y Ffeiliau yn y Ffolder, a dyddiadau ac amseroedd y camau gweithredu a wnaed ddiwethaf ar y Ffolder.

## Manylion y Ffolder

Gall Defnyddwyr sydd â Hawliau Defnyddiwr digonol olygu'r Nodweddion Ffolder canlynol ar unrhyw adeg:

- Teitl a Disgrifiad Ffolder
- Mae'r Math o Ffolder, os caiff ei ffurfweddu, yn galluogi'r Defnyddiwr i newid y Math o Ffolder a phennu Hawliau Defnyddiwr sy'n gysylltiedig â'r Math o Ffolder yn awtomatig.

Drwy ddewis y Math o Ffolder "heb ei gategoreiddio", bydd yn ei gwneud yn bosibl i bob is-ffolder yn y Ffolder gael ei bennu'n unrhyw Fath o Ffolder sydd ar gael.

Bydd dewis unrhyw Fath arall o Ffolder yn achosi i bob is-ffolder yn y Ffolder etifeddu'r Math o Ffolder a ddewiswyd yn awtomatig.

Gall Mathau gwahanol o Ffolderi fod yn gysylltiedig â Hawliau Defnyddiwr gwahanol, a gall Perchennog y Cyfeiriadur eu ffurfweddu.

Mae hefyd yn bosibl:

- Dileu Ffolder a'i holl gynnwys: er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i Ddefnyddwyr ddileu neu symud Ffeiliau sydd wedi'u cynnwys yn y Ffolder yn gyntaf.
- Copïo strwythur cyfan y Ffolder a'r holl is-ffolderi cysylltiedig, a Gludo'r cynnwys i adran fel Ffolder arall neu Gyfeiriadur.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Nodweddion y Ffeil

## Diffiniad

Mae'r dudalen Nodweddion Ffeil yn rhoi gwybodaeth i Brynwyr a Chyflenwyr sy'n berthnasol i bob Ffeil unigol yn y Cyfeiriadur.

Gellir rheoli Nodweddion Ffeiliau o'r adrannau canlynol:

- Manylion y Ffeil
- Fersiynau Ffeiliau Blaenorol
- Negeseuon

## Manylion y Ffeil

Mae'r adran Manylion Ffeil yn rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i Statws y Ffeil, gan nodi a yw'r Ffeil Ar Gael i'w lawrlwytho neu ei addasu, ynghyd â manylion y Camau Gweithredu a wnaed ar y Ffeil, dilysu llofnod yn electronig wrth lanlwytho o bosibl, a chofnod o'r holl achosion o lanlwytho'r Ffeil.

Gall y Camau Gweithredu posibl yn yr adran hon newid yn ôl Statws y Ffeil, a Gosodiadau a Hawliau Defnyddiwr y Cyfeiriadur.

Gan gymryd bod gan Ddefnyddiwr sy'n gysylltiedig â Chyfeiriadur yr holl Hawliau Defnyddiwr wedi'u galluogi, gall Defnyddiwr wneud y camau gweithredu canlynol i Ffeil sydd â statws Ar Gael:

- Allgofnodi: Mae'n atal yr holl Ddefnyddwyr rhag addasu Ffeiliau oni bai am y Defnyddiwr unigol sydd wedi Allgofnodi'r ffeil. Unwaith y bydd yr addasiadau wedi'u cwblhau, mae gan y Defnyddiwr ddau opsiwn: os yw'r Defnyddiwr yn barod i rannu addasiadau'r Ffeil gall y Defnyddiwr lanlwytho fersiwn newydd a sicrhau bod y Ffeil ar gael i'w golygu drwy wneud y cam gweithredu Mewngofnodi. Fel arall, gall y Defnyddiwr ganslo'r weithred Allgofnodi. Bydd canslo'r Allgofnodi'n golygu y bydd yn bosibl i Ddefnyddwyr eraill addasu'r ffeil.
- Lanlwytho fersiwn newydd: Mae'n ei gwneud yn bosibl i lanlwytho fersiwn newydd o Ffeil; os yw'r Ffeil wedi'i Hallgofnodi i'w golygu, dim ond os oes ganddynt yr Hawl Defnyddiwr i Ddileu'r cam Allgofnodi gall Defnyddiwr lanlwytho fersiwn newydd.
- Rhewi: Mae Rhewi Ffeil yn atal pob gweithred arall ar y Ffeil, megis golygu Nodweddion y Ffeil, lanlwytho fersiynau newydd, Mewngofnodi/Allgofnodi Ffeiliau neu ddileu Ffeil.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Fersiynau Ffeiliau Blaenorol

Bydd yr adran Fersiynau Ffeiliau Blaenorol ond ar gael os bydd yr adnodd Rheoli Fersiynau Ffeiliau yn y Cyfeiriadur wedi'i actifadu.

Mae'r dudalen yn rhoi rhestr o'r holl fersiynau blaenorol o'r Ffeil, gan alluogi Defnyddwyr i adfer fersiwn blaenorol os oes angen.

Gall Defnyddwyr awdurdodedig ddileu fersiynau o Ffeiliau. Ni chedwir fersiynau o Ffeiliau sydd wedi'u dileu ar y llwyfan, ond mae'n bosibl gweld manylion y fersiynau a'r cam dileu ar y rhestr o Gamau Gweithredu a wnaed ar y Ffeil.

# Negeseuon

Mae'n rhaid galluogi'r adran Negeseuon yng Ngosodiadau'r Cyfeiriadur ac mae'n galluogi Defnyddwyr i anfon a derbyn Negeseuon diogel sy'n gysylltiedig â Ffeil benodol.

Gan mai bwriad Negeseuon yw ategu'r nodweddion Rheoli Ffeiliau yn y modiwl Rhannu Ffeiliau, gall Negeseuon Ffeiliau gynnwys unrhyw Atodiadau.

Dim ond y Prynwyr a/neu'r Cyflenwyr hynny sydd wedi'u gwahodd i'r Cyfeiriadur all anfon a derbyn Negeseuon ar Ffeil:

- Os mai Cyflenwr a wahoddwyd yw anfonwr neu dderbynnydd Neges, yna bydd y Neges ar gael i'r holl Ddefnyddwyr yn Sefydliad y Cyflenwr sy'n gallu defnyddio'r Cyfeiriadur.
- Os mai Prynwr a wahoddwyd yw anfonwr neu dderbynnydd Neges, naill ai fel Prynwr unigol neu ar lefel Is-adran neu lefel Sefydliad y Prynwr, yna bydd yn rhaid i Brynwr benderfynu pa "flwch post" i'w ddefnyddio. Gall Prynwr anfon Negeseuon naill ai fel Prynwr unigol, ar lefel Is-adran neu lefel Sefydliad y Prynwr.

Caiff y weithred o Ddarllen Negeseuon a anfonir at Brynwyr ei olrhain ar lefel Prynwr unigol.

Os caiff Ffeil ei dileu o'r Cyfeiriadur, caiff pob Neges gysylltiedig ei dileu o'r llwyfan hefyd.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Cysylltiadau â Modiwlau eraill

Yn dibynnu ar ffurfwedd y llwyfan, a Hawliau Defnyddiwr unigol, gellir defnyddio'r Dewisydd Modiwl i fynd i'r adrannau canlynol:

- Y dudalen a ddefnyddir i ddewis Iaith y llwyfan (Mae ar gael i bob Defnyddiwr).

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

# Nodweddion Cyffredin

## Diffiniad

Mae sawl swyddogaeth safonol ar gael i Gyflenwyr ar draws yr holl fodiwlau yn y llwyfan.
Caiff ymddygiad y nodweddion cyffredin hyn eu hegluro ar y dudalen hon.

- **Rhestrau Gwrthrychau:**
- **Negeseuon:**
- **Rhestrau o Atodiadau:**
- **Lawrlwytho ar Raddfa Fawr:**

## Rhestrau Gwrthrychau

Cyflwynir Gwrthrychau yn y llwyfan, megis PQQs ac ITTs, i'r Defnyddiwr mewn rhestrau. Ceir gafael ar Fanylion Gwrthrychau, megis Gosodiadau ac Atodiadau, drwy glicio ar unrhyw Wrthrych ar y rhestrau hyn fel arfer.
Gall y Defnyddiwr reoli nifer y gwrthrychau sydd ar bob rhestr ar gyfer gwell cynaliadwyedd yn hawdd, a gellir allforio cynnwys pob rhestr mewn fformat Microsoft Excel er mwyn ei weld all-lein.

Gall Defnyddwyr Chwilio neu Hidlo drwy'r rhestrau o wrthrychau er mwyn gweld un gwrthrych penodol, neu er mwyn gweld is-set o wrthrychau.
Mae'r llwyfan yn darparu cyfres o Hidlyddion Safonol sy'n galluogi'r Defnyddiwr i ddod o hyd i'r is-setiau mwyaf cyffredin o wrthrychau'n gyflym ac yn hawdd. Mae enghreifftiau o Hidlyddion Safonol yn y rhestrau PQQ/ITT yn cynnwys PQQ/ITT Darllenwyd yn Ddiweddar a PQQ/ITT Gweithredol.
Mae'r swyddogaeth Chwilio yn galluogi'r Defnyddiwr i ffurfweddu chwiliadau am wrthrychau, gan ddefnyddio meysydd o Fanylion y gwrthrych neu o'r Prosiect sy'n cynnwys y gwrthrychau, fel meini prawf. Fel meini prawf ychwanegol, gall Defnyddwyr hidlo gwrthrychau yn ôl Statws y gwrthrych fel arfer, ac yn ôl cynnwys unrhyw Wybodaeth Ychwanegol sydd wedi'i chadw am y gwrthrych.

## Negeseuon

Mae gan y llwyfan nodwedd Negeseuon, sy'n galluogi Cyflenwyr a Phrynwyr i gyfathrebu'n ddiogel.
Nid yw Negeseuon ar y llwyfan fel negeseuon e-bost. Bydd derbynwyr Negeseuon yn cael rhybudd e-bost, yn rhoi gwybod iddynt eu bod wedi cael Neges newydd ar y llwyfan. Ond rhaid i'r derbyniwr hwn fewngofnodi ar y

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl

llwyfan, a phori i'r Neges newydd, er mwyn gweld ei chynnwys. Mae hon yn nodwedd ddiogelwch a ddyluniwyd i sicrhau mai dim ond defnyddwyr awdurdodedig a all weld cynnwys Negeseuon. Mae'r llwyfan yn nodi cynnwys pob Neges, a'r dyddiad a'r amser y darllenodd y derbyniwr y Neges. Mewn PQQ/ITT, Arwerthiant neu Gontract, gall Negeseuon roi llwybr archwilio llawn o'r cyfathrebu rhwng y Cyflenwr a'r Prynwr yn ystod y broses gyrchu.

Rhennir Negeseuon yn bedair rhestr:

- Negeseuon a Dderbyniwyd: Mae'n dangos unrhyw Negeseuon sydd wedi'u derbyn gan y Prynwr ar y gwrthrych presennol. Caiff nifer y Negeseuon nad yw'r Defnyddiwr wedi'u darllen yn bersonol ei dangos mewn cromfachau.
- Negeseuon a Anfonwyd: Mae'n dangos unrhyw Negeseuon a anfonwyd at y Prynwr ar y gwrthrych presennol.
- Negeseuon Drafft: Mae'n dangos unrhyw Negeseuon ar y gwrthrych presennol sydd wedi'u creu a'u cadw, onad nad ydynt wedi'u hanfon eto.
- Negeseuon a Anfonwyd Ymlaen: Mae'n dangos unrhyw Negeseuon sydd wedi'u hanfon ymlaen i dderbynwyr e-bost y tu allan i'r llwyfan o'r gwrthrych presennol.

O fewn yr adran Negeseuon, gall Defnyddiwr greu Neges newydd, chwilio am Negeseuon, argraffu Neges neu restr o Negeseuon, allforio'r rhestr o Negeseuon i Excel, neu weld adroddiad llawn o bob Neges mewn rhestr.

**Mewn PQQs/ITTs ac Arwerthiannau, efallai y bydd yn bosibl dewis Dosbarthiad wrth greu neges newydd er mwyn helpu i nodi gwahanol fathau o neges a gellir defnyddio’r Dosbarthiadau Neges hyn er mwyn chwilio'r rhestrau o negeseuon.**

Gall Negeseuon gynnwys atodiadau ffeil, heblaw am adrannau Negeseuon ffeiliau o fewn y modiwl rhannu Ffeiliau.

Fel arfer, dim ond at y parti arall mewn proses gaffael y gellir anfon Negeseuon, er enghraifft gan Brynwr at Gyflenwr, neu gan Gyflenwr at Brynwr. Er mwyn diogelu cyfrinachedd Cyflenwyr, ni ellir anfon Negeseuon rhwng dau Gyflenwr ar y llwyfan. Nid yw'r llwyfan fyth yn dangos manylion unrhyw dderbynwyr Negeseuon i dderbynwyr eraill y Neges.

# Rhestr o Atodiadau

Atodiadau yw unrhyw ffeiliau sydd wedi'u cadw ar y llwyfan. Gellir atodi ffeiliau i'r rhan fwyaf o wrthrychau ar y llwyfan, a chânt eu rheoli o'r rhestr o atodiadau, sy'n rhannu'r un nodweddion ar draws pob adran o'r llwyfan.

Gellir lanlwytho ffeiliau i'r llwyfan o gyfrifiadur Defnyddiwr, un ffeil ar y tro. Fel arall, mae'r llwyfan yn darparu cymhwysiad Java, sy'n galluogi Defnyddiwr i ddewis ac lanlwytho sawl ffeil o'r cyfrifiadur mewn un weithred.

(h) Hawlfraint BravoSolution 2010, Cedwir Pob Hawl 

## Cymorth i Gyflenwyr (Sector Cyhoeddus y DU)

Mae i bob ffeil sydd wedi'i hatodi ar y llwyfan ei nodweddion ei hun, megis hanes o lawrlwytho. Gall Prynwr actifadu neu ddadactifadu ffeiliau, gan alluogi'r Prynwr i atal Cyflenwyr rhag lawrlwytho ffeiliau unigol.
Gellir lawrlwytho cynnwys rhestr o atodiadau mewn un weithred yn hawdd gan ddefnyddio'r nodwedd Lawrlwytho ar Raddfa Fawr.

# Lawrlwytho ar Raddfa Fawr

Gellir Lawrlwytho ar Raddfa Fawr o bob rhestr Atodiadau, ac mae'n galluogi Defnyddiwr i lawrlwytho strwythur cyfan y rhestr Atodiadau, gan gynnwys yr holl ffolderi a ffeiliau, i leoliad dewisol ar eu cyfrifiadur eu hunain.
Mae'r swyddogaeth Lawrlwytho ar Raddfa Fawr yn defnyddio Java er mwyn hwyluso'r broses o lawrlwytho Atodiadau o'r llwyfan yn hawdd.
Mae'r adnodd Lawrlwytho ar Raddfa Fawr yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer lawrlwytho llawer o ffeiliau ar unwaith. Er enghraifft, gall Cyflenwr ddefnyddio'r swyddogaeth Lawrlwytho ar Raddfa Fawr i lawrlwytho holl Atodiadau Prynwr yn hawdd o PQQ/ITT, gan osgoi'r angen i lawrlwytho pob ffeil yn unigol.